# Dysgu am hawliau dynol yn yr Ysgol Uwchradd

Adnodd gan Amnest Rhyngwladol

Gweithgareddau i drafod hawliau dynol gyda myfyrwyr 11-18 oed

AMNEST RHYNGWLADOL

# CYNNWYS


1 CYFLWYNIAD

3 GWERS 1
**Deall hawliau dynol**
Cyflwyno hawliau dynol gyda delweddau, gweithgareddau a ffilm fer.
*Y Dyniaethau, Iechyd a Lles*

8 GWERS 2
**Hawliau dynol yn y DU**
Trafod rhinweddau'r Ddeddf Hawliau Dynol gan ddefnyddio achosion bywyd go iawn a gweithgaredd cyflwyno.
*Y Dyniaethau, Iechyd a Lles, Saesneg*

26 GWERS 3
**Mi dia, y los derechos (Fy niwrnod a fy hawliau)**
Cymharu bywydau pob dydd myfyrwyr yn y DU gyda siaradwyr Sbaeneg ifanc ym mhedwar ban byd.
*Sbaeneg, Y Dyniaethau, Iechyd a Lles*

32 GWERS 4
**Rhyddid mynegiant**
Trafod yr hawl i ryddid i lefaru a gwaith Amnest i'w hyrwyddo gydag astudiaethau achos cyfredol.
*Y Dyniaethau, Iechyd a Lles, Saesneg*

40 GWERS 5
**Ffoaduriaid a lloches**
Gweithgaredd chwarae rôl dramatig sy'n defnyddio stori wir i ddeall a chydymdeimlo â cheiswyr lloches a ffoaduriaid.
*Drama, Y Dyniaethau, Iechyd a Lles, Saesneg*

48 GWERS 6
**Ydy bod yn hoyw yn drosedd yn Boldofia?**
Chwarae rôl er mwyn trafod hawliau LHDTRh mewn gwlad ddychmygol sydd ag elfennau tebyg i sefyllfaoedd gwleidyddol.
*Drama, Y Dyniaethau, Iechyd a Lles*

52 GWERS 7
**Gweithredu**
Ffilm fer ac astudiaeth achos yn rhoi cyd-destun bywyd go iawn ar gyfer datblygu sgiliau ymgyrchu.
*Y Dyniaethau, Iechyd a Lles, Saesneg*













# CYFLWYNIAD




© Marie-Anne Ventoura

**‘Rwyf wedi goroesi gwersyll crynhoi. Mae fy llygaid wedi gweld pethau na ddylai unrhyw un fod yn dyst iddynt. Siambrau nwy wedi’u hadeiladu gan beirianwyr dysgedig. Plant yn cael eu gwenwyno gan ffisegwyr addysgedig. Plant bach yn cael eu lladd gan nyrsys hyfforddedig. Menywod a babanod yn cael eu saethu a’u llosgi gan raddedigion ysgol uwchradd a cholegau. Felly rwy’n amheus o fyd addysg.**

**Fy nghais yw: helpwch eich myfyrwyr i fod yn fwy dynol… Mae darllen, ysgrifennu a symiau yn bwysig os byddant yn gwneud ein plant yn fwy dynol.’**

Llythyr a ysgrifennwyd gan athro dienw i ysgol yn UDA, wedi’i gyhoeddi gan H. Ginott, 1972

**‘Rwyf wedi bod wrth fy modd yn gweld myfyrwyr swil yn dod allan o’u cragen ac yn magu llawer o hyder yn sgil eu gwaith gydag Amnest… bellach, maen nhw’n gweld y byd mewn goleuni newydd.’**

Sue Bingham, athrawes

## PAM ADDYSGU HAWLIAU DYNOL?

Mae plant a phobl ifanc yn wynebu materion hawliau dynol bob dydd. Maen nhw’n gweld mudwyr yn cyrraedd traethau ar y teledu, yn dilyn ymosodiadau terfysgol ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn profi bwlio, gwahaniaethu a mathau eraill o anghyfiawnder.

Os rhoddir cyfle iddyn nhw, mae’r mwyafrif yn awyddus i fynd i’r afael â’r materion moesol mawr yn ymwneud â hawliau dynol: rhyfel, artaith, tlodi, crefydd, mudo, hawliau menywod a rhyddid mynegiant.

Nid cysyniad haniaethol yw deall hawliau dynol. Mae’n helpu pobl ifanc i ddeall y byd go iawn – eu byd. Yr ystafell ddosbarth yw’r lle perffaith i ddechrau deall hynny.

Ers dros ddau ddegawd, mae Addysg Hawliau Dynol Amnesty UK wedi cyrraedd degau ar filoedd o fyfyrwyr yn y DU. Mae ein hadnoddau’n esgor ar drafodaethau bywiog mewn ystafelloedd dosbarth. Pam mae hawliau dynol yn bwysig i bob un ohonom a beth mae eu hamddiffyn yn ei olygu i ni?

Mae ymchwil yn awgrymu y gall addysg hawliau dynol wneud ysgolion yn fwy diogel, gostwng nifer achosion o fwlio a rhoi ymwybyddiaeth o gymuned i fyfyrwyr. Mae athrawon yn dweud bod agwedd ac ymddygiad myfyrwyr yn gwella ar ôl gwersi sy’n seiliedig ar adnoddau Amnest. Yn y tymor hir, y ffordd orau o sicrhau cymdeithas sy’n parchu ac yn diogelu hawliau dynol yw dinasyddiaeth weithredol: pobl sy’n gwybod beth yw eu hawliau ac yn eu hamddiffyn.

**‘Dyweda wrthyf a byddaf yn anghofio; dangosa i fi, a gallaf gofio; cynnwys fi, a byddaf yn deall.’**
Dihareb

## YNGLŶN Â’R ADNODD HWN

Mae’r adnodd hwn yn cynnwys wyth cynllun gwers, sy’n defnyddio ffyrdd arloesol o drafod hawliau dynol. Gallant fod yn wersi ar eu pen eu hunain neu gellir eu defnyddio wrth gynllunio diwrnodau thema neu ddiwrnodau oddi ar yr amserlen ar draws yr ysgol. Mae’r pecyn hwn yn cynnwys yr holl adnoddau angenrheidiol er mwyn creu Diwrnod Hawliau Dynol neu un wers ddiddorol a chofiadwy. Rydym wedi darparu pynciau addas ar gyfer pob gwers.

Am gyngor neu i ddysgu mwy am sut gall eich ysgol fod yn fwy cyfeillgar i hawliau dynol, cysylltwch â ni ar 020 7033 1500 neu **sct@amnesty.org.**neu ewch i **amnesty.org.uk/education**

## TU HWNT I’R YSTAFELL DDOSBARTH

Rydym yn annog ysgolion i weithio i ddatblygu dull ysgol gyfan er mwyn integreiddio gwerthoedd hawliau dynol ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Nid addysgu hawliau dynol yn unig, ond sicrhau bod yr athrawon yn dangos parch ac yn sicrhau cydraddoldeb, datrys anghydfodau yn deg a bod pob llais yn cael ei glywed. Mewn ysgolion ‘sy’n gyfeillgar i hawliau dynol’, mae athrawon yn canfod ffyrdd newydd o ymgorffori egwyddorion hawliau dynol yn eu holl waith.

Gellir cyflwyno dull ysgol gyfan i’ch ysgol yn raddol, trwy weithgareddau bach neu fentrau mwy. Dyma rai syniadau i’ch helpu i ddechrau arni.

- Datblygu Tîm Arwain Iau etholedig i’w hymgynghori ar benderfyniadau sy’n effeithio ar bob myfyriwr.
- Archwilio ffyrdd posibl o integreiddio hawliau dynol ar draws y cwricwlwm.
- Edrych ar ddatganiad cenhadaeth yr ysgol i wneud yn siŵr ei fod yn hyrwyddo ac yn cynrychioli’r ysgol mewn ffordd sy’n ystyriol o hawliau dynol.
- Cynnal diwrnod i godi ymwybyddiaeth o hawliau dynol.
- Cynnal archwiliad o bolisïau presennol yr ysgol i amlygu sut maen nhw’n effeithio ar hawliau dynol.
- Defnyddio gwasanaethau ysgol gyfan i bleidleisio ar benderfyniadau pwysig yn yr ysgol yn ddemocrataidd.
- Dewis pwnc sy’n effeithio ar eich myfyrwyr ar hyn o bryd – e.e. seiber-fwlio – a sut gellir ei archwilio, ei herio a’i oresgyn trwy edrych arno yng ngoleuni hawliau dynol.
- Sefydlu grŵp ieuenctid Amnest. Gweler **amnesty.org.uk/youth**

I ddysgu mwy **amnesty.org.uk/education**

## ADNODDAU ERAILL

Rydym yn darparu adnoddau dosbarth rhad ac am ddim ar gyfer amrywiaeth eang o oedrannau a phynciau. Mae’r rhan fwyaf ar gael fel deunydd i’w lawrlwytho yn gyflym ac yn hawdd. Mae’r pynciau’n cynnwys: ffoaduriaid, y gosb eithaf, hawliau LHDTRh a hawliau menywod. Mae adnoddau dysgu creadigol yn canolbwyntio ar farddoniaeth, ffotograffiaeth, adroddiadau, ffuglen a pherfformiad. I bori trwy ein casgliad, gweler **amnesty.org.uk/education**

Hefyd, gallwn ddod â hawliau dynol at eich ysgol trwy’r cynlluniau canlynol:

### TeachRights

Mae chwe mil o bobl wedi cofrestru i dderbyn chwe e-gylchlythyr y flwyddyn sy’n cynnwys gwybodaeth am ein hadnoddau newydd, cyfleoedd hyfforddi, newyddion a chystadlaethau. **amnesty.org.uk/teachrights**

### Grwpiau ieuenctid

Mae grwpiau ieuenctid Amnest ledled y DU, sydd wedi’u lleoli mewn ysgolion yn bennaf, yn helpu i ddatblygu’r sgiliau angenrheidiol ar gyfer ymgyrchu dros hawliau dynol. Dysgwch sut i ymuno â grŵp neu sefydlu un. **amnesty.org.uk/youth**

### Siaradwyr Amnest

Cyrhaeddodd ein siaradwyr ysgol dros 28,000 o blant a phobl ifanc yn 2017. Ni waeth beth yw’r pwnc, bydd siaradwr Amnest yn dod â’r cyfan yn fyw gyda straeon bywyd go iawn sy’n dal sylw a ffilmiau pwerus. Mae siaradwyr yn cynnal gweithdai, gwersi a gwasanaethau rhad ac am ddim. **amnesty.org.uk/speakers**

### Datblygiad proffesiynol parhaus

Mae athrawon yn ymdrin â materion â hawliau dynol bob dydd. Gall ymgorffori addysg hawliau dynol yn y dosbarth drawsnewid eich ffordd o addysgu. Mae ein hyfforddiant yn cynnwys gweithdai wedi’u teilwra a ffyrdd arloesol newydd o ymgysylltu â myfyrwyr, yn ogystal â chwrs ‘Athro Amnest’ tri diwrnod o hyd sy’n datblygu eich sgiliau a’ch gwybodaeth yn eich pwnc a sut i rannu’r gwersi a ddysgwyd yn eich ysgolion a’ch cymunedau. **amnesty.org.uk/teacher-training-course-cpd**

### Blog o’r dosbarth i’r gymuned

Mae’r tîm Addysg Hawliau Dynol yn Amnesty UK yn ysgrifennu blog i’ch helpu i ddod ag ymgyrchu i’r ystafell ddosbarth, dod â hawliau dynol yn fyw a newyddion addysg arall. Mae’n cynnwys syniadau gwych gan wirfoddolwyr ac addysgwyr sy’n angerddol am y pwnc. **amnesty.org.uk/blogs/classroom-community**

# GWERS 1

# Deall hawliau dynol

**NOD** Cyflwyno hawliau dynol i fyfyrwyr gan ddefnyddio delweddau, gweithgaredd ymarferol a ffilm fer.

## BYDD ANGEN

- **PowerPoint** Deall hawliau dynol
- **Taflen Adnoddau 1** Rhagymadrodd i'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, wedi'i grynhoi a'i symleiddio (un fesul pâr)
- **Taflen Adnoddau 2** Erthyglau hawliau dynol (ar gyfer yr athro, wedi'u rhannu'n gardiau a'u rhoi mewn amlenni)
- **Taflen Adnoddau 3** Fersiwn cryno o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (un fesul myfyriwr)
- Taflenni gwag o bapur
- Pinnau lliwio
- **Clip o ffilm** *You are powerful* (YouTube, chwiliwch am y teitl, 1 mun 30 eiliad)

**Ar gyfer estyniad/gwaith cartref yn unig**
- **My Rights Passport** Amnest (un fesul plentyn, archebwch becyn dosbarth rhad ac am ddim o 25: 01788 545553, cod cynnyrch ED112)


Eleanor Roosevelt © UN

## DEILLIANNAU DYSGU
- Gwybod beth yw hanes hawliau dynol
- Deall rhai o egwyddorion hawliau dynol
- Amlygu achosion o gam-drin hawliau dynol

## DECHRAU 15 munud
**SYLWER**: Mae'r gweithgaredd hwn yn defnyddio lluniau o'r Holocost a allai beri gofid.

- Gosodwch y PowerPoint. Dangoswch sleidiau 2-4. Gellir dosbarthu'r rhain fel taflenni hefyd. Gofynnwch i'r dosbarth beth sydd wedi cael ei ddwyn oddi wrth y bobl sydd yn y lluniau.
- Dangoswch sleid 5. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a gofynnwch iddyn nhw ystyried 'Beth yw hawliau dynol?' Gofynnwch i bob grŵp ysgrifennu tri gair i grynhoi eu syniadau. Gwnewch restr o'r holl eiriau hyn.

## PRIF RAN 15 munud
- Esboniwch bod arweinwyr y byd wedi dod at ei gilydd ar ôl yr Ail Ryfel Byd i ystyried sut i osgoi erchylltra fel yr Holocost yn y dyfodol. Gwnaethon nhw yn union beth mae'r dosbarth newydd ei wneud.

- Y ddogfen a grëwyd ganddynt yn y pen draw ym 1948 yw'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Mae'n nodi'r holl hawliau y dylai pob person eu cael. Dangoswch sleid 6.

### Rhagymadrodd

- Esboniwch y byddant yn edrych ar y cyflwyniad i'r Datganiad. Dosbarthwch Daflen Adnoddau 1, Rhagymadrodd i'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen y ddogfen mewn parau ac amlygu'r tri gair pwysicaf yn eu barn nhw.

- Adroddwch y geiriau hyn yn ôl i'r dosbarth, a'u cymharu â'r rhestr ddosbarth a grëwyd yn y gweithgaredd cyntaf. Pa mor debyg oedd syniadau'r dosbarth a rhai'r arweinwyr byd ym 1948?

## DATBLYGU 20 munud

- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o bedwar, a gofynnwch iddyn nhw gymryd amlen a'i chadw'n gyfrinach. Mae pob amlen yn cynnwys hawl ddynol wahanol o'r Datganiad (Taflen Adnoddau 2).
- Dywedwch wrth y grwpiau bod y Cenhedloedd Unedig wedi gofyn iddyn nhw greu hysbyseb dwy funud o hyd i bobl ifanc sy'n dangos pwysigrwydd yr hawl maen nhw wedi'i ddewis. Gallwch argymell gwahanol gynulleidfaoedd ar gyfer eu hysbyseb: plant, gweithwyr proffesiynol, pobl sydd wedi ymddeol.
- Gan ddefnyddio meim, adrodd stori, drama, darluniadau, sloganau, rhaid i grwpiau ddangos eu hawl yn cael ei wrthod neu ei fwynhau.
- Ar ôl iddyn nhw baratoi eu hysbyseb, dosbarthwch Daflen Adnoddau 3 Fersiwn cryno o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol i bob grŵp.
- Yna, rhaid i bob grŵp actio ei hysbyseb. Rhaid i grwpiau eraill ddyfalu pa erthygl sy'n cael ei chyfleu trwy gyfeirio at Daflen Adnoddau 3, ei ysgrifennu a'i ddangos.
- Trafodwch pam mae pob hawl yn bwysig i'w amddiffyn, a gofynnwch i fyfyrwyr a allan nhw feddwl am enghreifftiau lle mae'n cael ei wrthod – yn y wlad hon neu o amgylch y byd.

## TRAFODAETH 10 munud

- Gwyliwch ffilm Amnest, *You Are Powerful*, ond peidiwch â datgelu'r teitl. Gofynnwch i fyfyrwyr nodi'r erthyglau hawliau dynol sy'n cael eu gwrthod yn y ffilm. Trafodwch.
- Yn awr, gofynnwch iddyn nhw ddyfalu teitl y ffilm. Yn eu barn nhw, ydy Amnest wedi dewis teitl da? A yw gwybod am hawliau dynol yn gwneud i'r dosbarth deimlo'n fwy pwerus?

## ESTYNIAD/GWAITH CARTREF

Dosbarthwch gopïau o Basport Fy Hawliau Amnest, sy'n nodi holl erthyglau'r Datganiad.

### Procio'r meddwl

- Pe baen nhw'n gorfod creu hawl newydd, beth fyddai hwnnw?
- Pa hawl fydden nhw'n ei ddileu, a pham?
- A yw'r holl hawliau hyn yn cael eu mwynhau gan bawb yn y byd? Beth am yn y DU?

### Gweithgareddau

- Dewiswch hawl ddynol sydd o ddiddordeb penodol iddyn nhw, ac ymchwiliwch i sut mae'n amrywio o amgylch y byd.
- I gymryd rhan mewn ymgyrch bresennol, gweler **amnesty.org.uk/jua**



# GWERS 1: Taflen Adnoddau 1

## Rhagymadrodd i'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol

### wedi'i grynhoi a'i symleiddio

Os gall pawb gydnabod urddas a gwerth sylfaenol pob bod dynol, ac os gall bawb gydnabod bod gan bob bod dynol hawliau sylfaenol a chyfartal, bydd hyn yn arwain at ryddid, cyfiawnder a heddwch yn y byd.

Mae dangos amharch at hawliau dynol wedi arwain at weithredoedd erchyll sydd wedi digio pobl ym mhedwar ban byd. Rydym ni eisiau byd lle gall pawb fwynhau rhyddid i siarad a chredu a rhyddid rhag ofn a phrinder. Os bydd yr hawliau hyn yn troi'n gyfraith, bydd pobl yn cael eu gwarchod rhag gormes a gorthrwm.

Mae'n bwysig bod pobl yn deall yr hawliau a'r rhyddidau hyn, gan y bydd hyn yn arwain at safon well a thecach o fyw i bawb. Rydym wedi ymroi i hyrwyddo parch am yr hawliau hyn i bawb.

Rydym yn ystyried y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yn hawl i bob person a phob cenedl. Rydym yn gobeithio y bydd pob unigolyn a phob corff yn y gymdeithas yn ceisio trwy addysgu ac addysg i hyrwyddo parch am yr hawliau a'r rhyddidau hyn. Rydym yn gobeithio y bydd unigolion a llywodraethau'n gwneud eu gorau glas i sicrhau bod yr hawliau hyn yn cael eu parchu'n llawn yn eu gwlad eu hunain a ledled y byd.

**Amlygwch y tri gair pwysicaf yn eich barn chi.**

# GWERS 1: Taflen Adnoddau 2

## Erthyglau hawliau dynol

**Torrwch erthyglau'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a'u rhoi mewn amlenni ar wahân.**

### Erthygl 26
Mae gan bawb hawl i addysg.

### Erthygl 4
Nid oes gan unrhyw un hawl i'n caethiwo. Ni allwn gaethiwo unrhyw un arall.

### Erthygl 5
Nid oes gan unrhyw un hawl i'n harteithio neu ein trin yn greulon.

### Erthygl 22
Mae gan bawb hawl i gartref, digon o arian i fyw a chymorth meddygol os byddwn yn sâl.

### Erthygl 3
Mae gan bawb hawl i fywyd, ac i fyw yn rhydd ac yn ddiogel.

### Erthygl 17
Mae gan bawb hawl i berchen ar bethau neu eu rhannu. Ni ddylai unrhyw un fynd â'n heiddo oddi wrthyn ni heb reswm da.

### Erthygl 19
Mae gan bawb yr hawl i wneud ein penderfyniadau ein hunain, meddwl beth bynnag yr hoffen ni a rhannu ein syniadau â phobl eraill.

### Erthygl 18
Mae gan bawb yr hawl i gredu'r hyn rydyn ni eisiau ei gredu a dilyn crefydd.

### Erthygl 2
Mae hawliau dynol yn perthyn i bawb, ni waeth beth yw ein gwahaniaethau.

### Erthygl 12
Nid oes gan unrhyw un yr hawl i ddod i'n cartref, agor ein llythyrau, nac amharu arnom ni neu ein teulu, heb reswm da.

### Erthygl 24
Mae gan bawb yr hawl i orffwys o'n gwaith ac ymlacio.

### Erthygl 9
Nid oes gan unrhyw un hawl i'n rhoi yn y carchar heb reswm da.

# GWERS 1: Taflen Adnoddau 3

## Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol
### fersiwn cryno

1. Ganwyd ni oll yn rhydd. Mae gennym ni oll ein meddyliau a'n syniadau ein hunain. Dylem oll dderbyn yr un fath o driniaeth.
2. Mae'r hawliau hyn yn eiddo i bawb, ni waeth beth yw ein gwahaniaethau.
3. Mae gennym oll yr hawl i fywyd ac i fyw mewn rhyddid a diogelwch.
4. Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n gwneud yn gaethweision. Ni allwn ni wneud caethwas o unrhyw un arall
5. Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n brifo na'n harteithio na'n trin yn greulon.
6. Mae gan bawb yr hawl i gael eu hamddiffyn gan y gyfraith.
7. Yr un yw'r gyfraith i bawb. Mae'n rhaid iddi ein trin i gyd yn deg.
8. Gall pawb ofyn i'r gyfraith ein cynorthwyo pan na fyddwn yn derbyn triniaeth deg.
9. Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n carcharu heb reswm digonol, i'n cadw yn y carchar nac i'n halltudio o'n gwlad.
10. Os cawn ein gosod ar brawf, rhaid i hynny fod yn gyhoeddus. Ni ddylai'r rhai sy'n ein barnu ganiatáu i unrhyw un arall ddweud wrthyn nhw yr hyn y dylen nhw ei wneud.
11. Ni ddylid beio unrhyw un am wneud rhywbeth hyd nes y ceir tystiolaeth ohono. Pan fydd pobl yn dweud ein bod wedi gwneud rhywbeth drwg, mae gennym yr hawl i brofi nad yw hynny'n wir.
12. Ni ddylai unrhyw un geisio difwyno ein henw da. Nid oes gan unrhyw un yr hawl i ddod i mewn i'n cartref, agor ein llythyron nac i'n haflonyddu ni na'n teuluoedd heb reswm da.
13. Mae gennym oll yr hawl i fynd ble y mynnom yn ein gwlad ein hunain ac i deithio dramor yn ôl ein dymuniad.
14. Pan fyddwn yn ofni camdriniaeth yn ein gwlad ein hunain mae gennym oll yr hawl i ffoi i wlad arall er mwyn bod yn ddiogel.
15. Mae gennym oll yr hawl i berthyn i wlad.
16. Mae gan bob oedolyn yr hawl i briodi a chael teulu pan fyddan nhw'n dymuno gwneud hynny. Mae gan ddynion a menywod yr un hawliau pan fyddan nhw'n briod a phan fyddan nhw wedi gwahanu.
17. Mae gan bawb yr hawl i berchen pethau neu i'w rhannu. Ni ddylai unrhyw un fynd â phethau oddi wrthym ni heb reswm digonol.
18. Mae gennym oll yr hawl i gredu'r hyn y dymunwn ei gredu, i berthyn i grefydd neu i'w newid pan ddymunwn wneud hynny.
19. Mae gennym oll yr hawl i wneud ein penderfyniadau ein hunain, i feddwl yr hyn a fynnwn, i ddweud yr hyn a fynnwn ac i rannu ein syniadau â phobl eraill.
20. Mae gennym oll yr hawl i gyfarfod â'n ffrindiau ac i gydweithio mewn heddwch i amddiffyn ein hawliau. Ni all unrhyw un ein gorfodi i ymuno â grŵp pan na fyddwn yn dymuno gwneud hynny.
21. Mae gennym oll yr hawl i gyfranogi yn llywodraeth ein gwlad. Dylid caniatáu i bob oedolyn pleidleisio i ddewis eu harweinwyr eu hunain.
22. Mae gennym oll yr hawl i gartref, i feddu ar ddigon o arian i fyw ac i gymorth meddygol pan fyddwn yn sâl. Dylem oll fod yn rhydd i fwynhau cerddoriaeth, celfyddyd, crefft a chwaraeon.
23. Mae gan bob oedolyn yr hawl i swydd, i gyflog teg am ei waith ac i ymuno ag undeb llafur.
24. Mae gennym oll yr hawl i orffwys o'n gwaith ac i ymlacio.
25. Mae gennym oll yr hawl i ddigon o fwyd, dillad, tai a gofal iechyd. Mae gan famau a phlant, pobl ddi-waith, hen bobl a phobl anabl yr hawl i gael gofal.
26. Mae gennym oll yr hawl i addysg ac i gwblhau addysg gynradd a ddylai fod am ddim. Dylem fod yn gallu dysgu ar gyfer gyrfa neu wneud defnydd llawn o'n holl sgiliau.
27. Mae gennym oll yr hawl i'n ffordd o fyw ein hunain, ac i fwynhau'r pethau da a ddaw yn sgil gwyddoniaeth a dysg.
28. Mae gennym hawl i drefn er mwyn i ni oll fwynhau hawliau a rhyddid yn ein gwlad ein hunain a thros y byd i gyd.
29. Mae gennym ddyletswydd tuag at bobl eraill, a dylem amddiffyn eu hawliau a'u rhyddid.
30. Ni all neb ddwyn yr hawliau a'r rhyddidau hyn oddi wrthym.

Mae'r fersiwn hon o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol wedi cael ei symleiddio gan Amnest RhyngwladolUK ac mae'n arbennig o ddefnyddiol i bobl iau. I weld fersiwn lawn y Datganiad gweler **amnesty.org.uk/universal**

GWERS 2

# Hawliau dynol yn y DU

## Rhan 1: Planed newydd

**NOD** Bydd myfyrwyr yn creu eu set eu hunain o hawliau dynol ar gyfer planed newydd cyn eu cymharu â'r Ddeddf Hawliau Dynol.

### BYDD ANGEN

- Taflen fawr o bapur (fesul grŵp)
- Pinnau ysgrifennu/pensiliau
- Taflen Adnoddau 1 Fersiwn cryno o'r Ddeddf Hawliau Dynol (fesul myfyriwr)
- Gwybodaeth gefndirol am y Ddeddf Hawliau Dynol (ar gyfer yr athro)

### DEILLIANNAU DYSGU

- Ystyried pa hawliau dynol dylid eu hamddiffyn yn ôl y gyfraith a phwy ddylai fod yn gyfrifol am eu diogelu
- Cymharu dulliau posibl a gymerir i amddiffyn hawliau dynol, gan amlygu nad oes un dull penodol

### DECHRAU 10 munud

- Esboniwch i'r dosbarth bod planed newydd wedi cael ei darganfod. Mae'r blaned newydd yn union yr un fath â'r Ddaear o ran amgylchedd a bywyd gwyllt, ond nid oes unrhyw fodau dynol wedi bod i'r blaned newydd hon na byw arni. Nid oes unrhyw gyfreithiau, rheolau na hanes.
- Y myfyrwyr yw'r rhai cyntaf i setlo yno, a rhaid iddyn nhw benderfynu ar yr hawliau dynol i'w hamddiffyn yn ôl y gyfraith ar y blaned newydd.
- Rhannwch y myfyrwyr yn grwpiau a gofynnwch i bob grŵp feddwl am enw ar gyfer y blaned.



© Anne Montague

### PRIF RAN 35 munud

- Gan barhau yn eu grwpiau, gofynnwch iddyn nhw restru 10 hawl ddynol y dylid eu hamddiffyn yn ôl y gyfraith.
- Gofynnwch i bob grŵp gyflwyno ei blaned i'r grwpiau eraill, ac esbonio'r 10 hawl maen nhw wedi'u dewis a pham.
- Wrth i bob grŵp gyflwyno, lluniwch restr gyflawn (gan gyfuno'r rhai sy'n debyg i'w gilydd) o'r holl hawliau dynol a gynigiwyd gan y dosbarth.
- Edrychwch ar Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (dosbarthwch Daflen Adnoddau 1). Sut mae rhestr y dosbarth yn cymharu â'r hawliau a restrir yn y Ddeddf? A hoffai'r dosbarth ychwanegu unrhyw hawliau newydd i'r rhestr yn awr?
- A yw popeth yn y Ddeddf Hawliau Dynol wedi'i gynnwys yn rhestr gyflawn y dosbarth? Os ddim, trafodwch pa mor bwysig yw'r rhai na gafodd eu cynnwys.
- A yw'r myfyrwyr yn credu y dylai unrhyw hawliau o'u rhestr nhw gael eu cynnwys yn y Ddeddf Hawliau Dynol a chael eu hamddiffyn yn ôl cyfraith y DU?

### TRAFODAETH 15 munud

- Pam mae rhestr o hawliau wedi'u hamddiffyn yn bwysig ar gyfer y blaned newydd?
- Pwy ddylai fod yn gyfrifol am orfodi'r hawliau hyn?
- A fyddech chi'n hapus petai'r rhyddidau sylfaenol hyn ddim yn cael eu hamddiffyn yn iawn?

Defnyddiwch y drafodaeth hon fel ffordd o esbonio a thrafod y ffordd y caiff hawliau dynol eu hamddiffyn yn y DU. Pwysleisiwch i fyfyrwyr nad oes unrhyw hawl na dull penodol o amddiffyn hawliau dynol.

## GWERS 2

# Hawliau dynol yn y DU

## Rhan 2: Drama yn y llys

**NOD** Mae'r myfyrwyr yn parhau i ddysgu am y Ddeddf Hawliau Dynol yn y DU ac yn defnyddio sgiliau siarad, gwrando ac ysgrifennu i ddadansoddi a chyflwyno cyfres o achosion bywyd go iawn mewn drama llys.

### BYDD ANGEN

- **PowerPoint** Hawliau dynol yn y DU
- **Taflen Adnoddau 1** Fersiwn cryno o'r Ddeddf Hawliau Dynol (un fesul myfyriwr)
- **Taflen waith 1** Drama yn y llys (pob achos ar daflen wahanol)
- Gwybodaeth gefndirol am y Ddeddf Hawliau Dynol (ar gyfer yr athro)
- Nodiadau i'r athro
- **Ffilm** *Human Rights Explained In a Beautiful Two Minute Animation* (YouTube, chwiliwch am y teitl)
- **Ffilm** *Jan's story* (**keeptheact.uk/jans-story-i-began-to-feel-like-a-human-being-again**)

**Ar gyfer estyniad / gwaith cartref yn unig:**

- **Taflen waith 2** Dwy ochr i bob stori (un fesul myfyriwr)

### DEILLIANNAU DYSGU

- Gallu enwi'r hawliau yn y Ddeddf Hawliau Dynol
- Bod yn ymwybodol o sut mae barnwyr yn gwneud dewisiadau anodd mewn achosion hawliau dynol
- Defnyddio technegau perswadiol ac iaith briodol wrth ysgrifennu a chyflwyno

### DECHRAU 15 munud

- Gosodwch y PowerPoint. Dangoswch a darllenwch sleidiau 2 a 3 a gwnewch yn siŵr bod pawb yn deall deilliannau'r wers.
- Esboniwch i'r myfyrwyr bod ein hawliau dynol ni yn y DU yn cael eu hamddiffyn gan y Ddeddf Hawliau Dynol (DHD) a'u bod yn mynd i ddysgu beth yw'r hawliau hynny.
- Dosbarthwch Daflen Adnoddau 1 Fersiwn cryno o'r Ddeddf Hawliau Dynol i bob myfyriwr. Dangoswch sleidiau 4-9 ac, ar ôl pob sleid, gofynnwch i fyfyrwyr gyfeirio at y daflen adnoddau a dangos i ba erthygl mae'r llun yn cyfeirio ati. Bydd yr ateb yn ymddangos ar y sgrin ar ôl i chi glicio eilwaith.

**SYLWER:** Mae'r sleidiau'n rhoi rhai enghreifftiau yn unig o'r hawliau yn y DHD; mae'r gweddill ar y daflen.

- Esboniwch fod y DHD yn ddeddf sy'n amddiffyn pob un ohonom rhag cael ein hawliau dynol wedi'u gwrthod gan y wladwriaeth. Mae'n golygu bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus, fel ysgolion, ysbytai neu weinidogion y llywodraeth, barchu ein hawliau, ac os nad ydynt yn gwneud hynny, gallwn fynd i'n llys lleol i'w gorfodi.
- Os byddai'n well gennych chi wneud hynny, gallwch ddangos clip dwy funud o hyd o'r enw *Human Rights Explained In a Beautiful Two Minute Animation* gan **rightsinfo.org**.
- Dangos y ffilm *Jan's story* (3.21 munud). Roedd yn dioddef o sglerosis ymledol a defnyddiodd y Ddeddf Hawliau Dynol i sicrhau bywyd gwell i'w hun.

**NODYN I'R ATHRO:** Cafodd Jan lefel mor isel o ofal gan ei chyngor lleol, bu rhaid iddi dreulio trwy'r dydd, pob dydd yn y gwely. 'Roedd yn ddiraddiol ac yn annynol,' dywedodd Jan. Diolch i'r Ddeddf Hawliau Dynol, sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn sicrhau nad yw eu penderfyniadau'n rhoi pobl yn yr amodau hyn, dadleuodd y dylent gynyddu eu cymorth ddigon i'w galluogi i ddechrau byw ei bywyd unwaith eto. Yn anffodus, bu farw Jan yn 2018.

## TRAFODAETH

- Pam mae'r Ddeddf Hawliau Dynol mor bwysig i Jan?
- Heb gymorth, mae'n sownd yn y gwely. Sut ydych chi'n meddwl y mae hyn yn gwneud iddi deimlo? Sut byddech chi'n teimlo pe baech chi yn y sefyllfa hon?
- Beth allwn ni ei wneud yn ein bywydau pob dydd i sicrhau bod hawliau pobl ag anableddau'n cael eu parchu?
- Os byddwn yn colli ein hawliau, pwy fydd yn talu'r pris mwyaf?

## PRIF RAN 40 munud

### Ar brawf

Esboniwch, os bydd unrhyw un yn teimlo bod ei hawliau dynol wedi'u cam-drin, mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn golygu y gallwch fynd â'ch achos i lys yn y DU i'w asesu gan farnwr. Mae'r barnwr yn aml yn gwneud dewisiadau anodd rhwng hawliau gwahanol grwpiau o bobl, neu rhwng hawliau un person a diogelwch y cyhoedd.

Yn awr, bydd myfyrwyr yn ystyried achosion hawliau dynol go iawn ac yn actio'r olygfa yn y llys. Bydd rhai yn actio rhannau'r erlynyddion a rhai yn amddiffyn, a rhaid iddyn nhw ddarbwyllo gweddill y dosbarth gan ddefnyddio technegau ysgrifennu a siarad perswadiol.

- Rhannwch y dosbarth yn chwe grŵp.

- Dyrannwch achos o Daflen Waith 1 Drama yn y Llys i bob grŵp.

- Esboniwch y dylai'r grŵp ysgrifennu sgript a pherfformio drama llys dwy funud o hyd i gyflwyno dwy ochr y ddadl. Bydd yr erlynyddion a'r amddiffynwyr ym mhob achos yn ceisio dwyn perswâd ar y dosbarth - bydd y dosbarth yn gweithredu fel barnwr ar y cyd (nid yw rheithgorau yn cael eu defnyddio yn yr achosion hyn fel rheol).

- Gofynnwch i bob grŵp ddarllen yr achos gyda'i gilydd a thrafod yr hawliau dynol sy'n berthnasol i bawb sydd ynghlwm â'r achos.

- Yna, dylai'r grwpiau ddyrannu rolau – adroddwr stori, cyfreithwyr erlyn a chyfreithwyr amddiffyn (gallwch gael mwy nag un cyfreithiwr ar bob ochr, gan ddibynnu ar faint y grŵp).

- Dangoswch sleid 10. Wrth ysgrifennu a chyflwyno eu sgript, dylai'r myfyrwyr ddefnyddio cymaint o dechnegau perswadiol â phosibl. Dylai'r adroddwr helpu i ysgrifennu'r sgript ar gyfer y cyfreithwyr yn ogystal ag ysgrifennu ei ran ei hun, fel ei fod yntau'n cael cyfle i ymarfer ysgrifennu perswadiol hefyd. Os bydd digon o amser, gofynnwch iddyn nhw ymchwilio i farn arbenigwyr perthnasol ac ystadegau er mwyn ychwanegu at eu hachos.

- Dylai'r erlynwyr a'r amddiffynwyr ym mhob achos gystadlu i berswadio gweddill y dosbarth i gytuno â'u barn ar yr achos.

- Gofynnwch i bob grŵp gyflwyno. Ar ôl pob un, gofynnwch i'r dosbarth pwy oedd fwyaf perswadiol – oedden nhw'n cytuno â'r erlynwyr neu'r amddiffynwyr? Rhowch eich adborth ar y cyflwyniad.

- Yna esboniwch beth oedd dyfarniad y barnwr go iawn ym mhob achos – cyfeiriwch at nodiadau'r athro. Beth yw eu barn?

**NODYN I'R ATHRO:** Mae gan bob grŵp 10 munud i ddarllen yr achos, trafod ac ysgrifennu'r sgript. Mae hyn yn rhoi dwy funud i gyflwyno, un funud i symud o gwmpas a dwy funud o adborth i bob grŵp.

## CRYNHOI 5 munud

- Ail-ddarllenwch y deilliannau dysgu ar sleid 11. Heb edrych ar eu taflenni adnoddau, gofynnwch i'r dosbarth enwi rhai hawliau yn y Ddeddf Hawliau Dynol.
- Dangoswch sleid 12. Gofynnwch i'r dosbarth sefyll ar un pen yr ystafell os ydynt yn meddwl bod y Ddeddf Hawliau Dynol yn beth da, ac ar ben arall yr ystafell os ydynt yn meddwl bod y Ddeddf Hawliau Dynol yn beth gwael. Gofynnwch i rai ohonynt gyfiawnhau eu barn. Os bydd unrhyw un heb benderfynu, gofynnwch iddyn nhw ddarllen y Ddeddf eto ac ystyried pa hawliau nad ydyn nhw eisiau eu hunain.

## ESTYNIAD/GWAITH CARTREF

Rhowch gopi o Daflen Waith 2 Dwy ochr i bob stori i'r myfyrwyr a gofynnwch iddyn nhw gymharu'r sylw yn y wasg i achos y mudwr o Bolifia a'r gath.

**NODYN I'R ATHRO:** Mae'r ddau ddarn yn Nhaflen Waith 2 yn ddetholiadau o erthyglau hwy.

Gallwch ddarllen yr erthygl Daily Mail lawn ar **dailymail.co.uk/news/article-1221353/Youve-got-cat-OK-stay-Britain-officials-tell-Bolivian-immigrant.html**

Gallwch ddarllen yr erthygl *Guardian* lawn ar **guardian.co.uk/commentisfree/2011/oct/04/theresa-may-cat-human-rights-act**

### Trafod

Caiff y ffeithiau eu cyflwyno'n wahanol yn y ddwy erthygl gan fod yr awdur yn y Daily Mail yn erbyn y Ddeddf Hawliau Dynol ac mae awdur y Guardian o blaid y Ddeddf.

**A ddylai papurau newydd ddangos eu barn am faterion gwleidyddol neu a ddylent fod yn annibynnol?**

Defnyddir gwahanol dechnegau i gyfleu eu pwyntiau. Mae'r ddwy erthygl yn defnyddio hiwmor. Mae'r Daily Mail yn defnyddio brawddegau byrrach ac iaith lai cymhleth, ac mae'n defnyddio dyfyniadau gan bobl sy'n ymddangos yn bwysig.

**Pa erthygl sydd fwyaf effeithiol?**

# GWERS 2: Taflen Adnoddau 1

## Deddf Hawliau Dynol y DU

### fersiwn cryno

**Erthygl 2** Mae gan bawb hawl i fywyd.

**Erthygl 3** Mae gan bawb hawl i ryddid rhag arteithio a thriniaeth greulon neu ddiraddiol.

**Erthygl 4** Mae gan bawb yr hawl i beidio cael eu gorfodi i wneud gwaith llafur gorfodol a'r hawl absoliwt i beidio cael eu trin fel caethwas.

**Erthygl 5** Mae gan bawb hawl i ryddid a diogelwch.

**Erthygl 6** Mae gan bawb yr hawl i dreial teg.

**Erthygl 7** Mae gan bawb hawl i beidio cael eu cosbi am rywbeth os nad oedd y weithred yn erbyn y gyfraith pan wnaethoch chi hynny.

**Erthygl 8** Mae gan bawb yr hawl i barch am eu bywyd preifat a theuluol, eu cartref a'u llythyrau, e-byst a galwadau ffôn.

**Erthygl 9** Mae gan bawb yr hawl i gredu beth maen nhw eisiau, a meddu ar eu barn eu hunain. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i gredoau crefyddol.

**Erthygl 10** Mae gan bawb yr hawl i fynegi eu barn. Mae gennych hawl i dderbyn gwybodaeth a dweud eich dweud – cyhyd â'ch bod yn parchu pobl eraill.

**Erthygl 11** Mae gan bawb hawl i ymgynnull â phobl eraill yn heddychlon ac mae gan bawb hawl i ymuno ag undeb llafur.

**Erthygl 12** Mae gan bawb hawl i briodi a chychwyn teulu. Mae'r gyfraith genedlaethol yn gosod yr isafswm oedran y gallwch wneud hyn.

**Erthygl 14** Mae gennych hawl i beidio cael eich trin yn annheg wrth fwynhau eich hawliau oherwydd eich oedran, hil, crefydd, rhyw, anabledd neu unrhyw statws arall.

**Protocol 1: Erthygl 1** Mae gan bawb hawl i fwynhau eu heiddo

**Protocol 1: Erthygl 2** Mae gan bawb hawl i addysg.

**Protocol 1: Erthygl 3** Mae gan bawb hawl i bleidleisio mewn etholiadau i ddewis pa lywodraeth maen nhw eisiau i reoli'r wlad. Mae'r gyfraith yn nodi'r isafswm oedran pleidleisio.

**Protocol 13: Erthygl 1** Ni all neb gael ei ddedfrydu i farwolaeth am unrhyw drosedd.

# GWERS 2: Taflen waith 1

# Drama yn y llys

## ASTUDIAETH ACHOS 1

### Defnyddio 'kettling' i reoli proteswyr ifanc yn y 'Climate Camp'

Ar 1 Ebrill 2009, cynhaliwyd dwy brotest fawr yn Ninas Llundain. Cynhaliwyd un ohonynt ger y Bank of England, ac roedd yn ymwneud â banciau yn cam-reoli arian yn y DU, ym marn y protestwyr.

Roedd yr ail ohonynt yn ymwneud â newid hinsawdd – roedd y protestwyr yn gofyn i lywodraethau wneud mwy i amddiffyn yr amgylchedd ac atal newid hinsawdd. Yr enw am y brotest hon oedd y 'Climate Camp' ac roedd wedi'i leoli ryw chwarter milltir oddi wrth y brotest arall.

Ceisiodd y protestwyr yn y banc gynnau swyddfeydd Bank of England ar dân, taflwyd taflegrau a chafodd offer cyfrifiadurol ei ddwyn. Ar y llaw arall, roedd y brotest newid hinsawdd yn heddychlon iawn, gyda cherddoriaeth yn cael ei chwarae a dim trais.

Penderfynodd yr heddlu ddefnyddio dulliau 'kettle' ar yr holl brotestwyr yn y banc. Roedd hyn yn golygu gorfodi'r protestwyr i aros mewn un ardal a'u hatal rhag symud o'r ardal am y prynhawn cyfan. Nod hyn oedd atal y trais rhag lledaenu i rannau eraill y ddinas ac effeithio ar bobl eraill.

Hefyd, penderfynodd yr heddlu, pan fyddai'r protestwyr Bank of England yn cael eu caniatáu i adael, y byddant yn cadw'r protestwyr mewn 'kettle' yn y Climate Camp. Dywedon nhw mai nod hyn oedd atal y trais yn Bank of England rhag lledaenu i'r brotest newid hinsawdd.

Daeth dau o'r protestwyr a gafodd eu cadw mewn 'kettle' gan yr heddlu yn y Climate Camp ag achos yn erbyn yr heddlu yn yr Uchel Lys, gan ddadlau bod yr heddlu wedi tarfu ar eu hawliau dynol. Yn eu barn nhw, roedd y dull 'kettle' yn annheg gan fod eu protest yn heddychlon.

## TASG

Darllenwch y testun gyda'ch gilydd fel grŵp.

Cyfeiriwch at y Ddeddf Hawliau Dynol a gwnewch nodyn o ba hawliau dynol sy'n berthnasol yn yr achos hwn. (Meddyliwch am hawliau'r protestwyr a hawliau pobl eraill yn ardaloedd y protestiadau.)

Penderfynwch pwy fydd yn actio'r rolau canlynol yn y llys, ac ysgrifennwch sgript ar gyfer eich cyflwyniad.

**ADRODDWR:** Byddwch yn cyflwyno'r achos i'r dosbarth, gan esbonio'n glir beth yw manylion yr achos a pha hawliau dynol sydd ynghlwm.

**Y CYFREITHWYR ERLYN:** Byddwch yn siarad ar ran y protestwyr o'r Climate Camp. Dylech ddadlau pam ydych chi'n meddwl bod yr heddlu wedi camweithredu wrth ddefnyddio dulliau 'kettle'. Rhaid i chi berswadio gweddill y dosbarth mai chi sy'n iawn, a chyfiawnhau eich barn.

**Y CYFREITHWYR AMDDIFFYN:** Byddwch yn siarad ar ran yr heddlu. Rhaid i chi ddadlau pam yr oeddech chi'n meddwl bod angen gorfodi'r protestwyr mewn un man yn y Climate Camp. Rhaid i chi berswadio gweddill y dosbarth mai chi sy'n iawn, a chyfiawnhau eich barn.

Pa ochr fydd yn llwyddo i'ch perswadio?

# GWERS 2: Taflen waith 1

## Drama yn y llys

## ASTUDIAETH ACHOS 2

### Mae taro plant yn rhan o fy nghrefydd

Mae'r 'gosb gorfforol' (taro plant os byddant yn torri'r rheolau) yn erbyn y gyfraith yn ysgolion y DU.

Aeth grŵp o benaethiaid, rhieni ac athrawon mewn pedair ysgol ag achos i'r llys yn hawlio bod y gyfraith hon yn erbyn eu crefydd fel Cristnogion ac, felly, roedd yn mynd yn groes i'w hawliau dynol.

Roedden nhw'n teimlo mai'r rhieni ddylai benderfynu a all athrawon daro eu plant fel cosb.

Dadleuodd y rhieni a'r athrawon bod rhai rhannau o'r Beibl yn dweud bod disgyblu plant trwy eu taro yn bwysig, er mwyn iddyn nhw ddysgu sut i ymddwyn yn iawn. 'Yr hwn a arbedo y wialen, sydd yn casáu ei fab: ond yr hwn a'i câr ef, a'i cerydda mewn amser' Diarhebion 13:24

Ochr arall y ddadl yw bod y gyfraith yn erbyn cosbau corfforol yn bodoli er mwyn diogelu hawliau plant mewn ysgolion.

Mae arbenigwyr yn dweud bod cosbi plant trwy eu taro yn peri gofid, poen ac effeithiau niweidiol eraill. Mae'r American Psychological Association (APA) yn honni bod cosbau corfforol yn 'dreisgar ac yn ddiangen, gall leihau hunanbarch, a gall achosi gelyniaeth a dicter heb leihau'r ymddygiad drwg'. Mae'r APA hefyd yn nodi bod cosbau corfforol yn debygol o hyfforddi plant i ddefnyddio trais corfforol.

## TASG

Darllenwch y testun gyda'ch gilydd fel grŵp.

Cyfeiriwch at y Ddeddf Hawliau Dynol a gwnewch nodyn o ba hawliau dynol sy'n berthnasol yn yr achos hwn. Meddyliwch am hawliau'r plant a'u rhieni.

Penderfynwch pwy fydd yn actio'r rolau canlynol yn y llys, ac ysgrifennwch sgript ar gyfer eich cyflwyniad.

**ADRODDWR:** Byddwch yn cyflwyno'r achos i'r dosbarth, gan esbonio'n glir beth yw manylion yr achos a pha hawliau dynol sydd ynghlwm.

**Y CYFREITHWYR ERLYN:** Byddwch yn siarad ar ran y rhieni a'r athrawon sy'n credu y dylent gael hawl i daro plant yn yr ysgol. Rhaid i chi berswadio gweddill y dosbarth mai chi sy'n iawn, a chyfiawnhau eich barn.

**Y CYFREITHWYR AMDDIFFYN:** Byddwch yn siarad ar ran y llywodraeth. Byddwch yn dadlau bod y gyfraith yn iawn i atal athrawon rhag taro plant yn yr ysgol. Rhaid i chi berswadio gweddill y dosbarth mai chi sy'n iawn, a chyfiawnhau eich barn.

Pa ochr fydd yn llwyddo i'ch perswadio?

# GWERS 2: Taflen waith 1

# Drama yn y llys

## ASTUDIAETH ACHOS 3

### Rio Ferdinand

Cafodd Rio Ferdinand ei benodi'n gapten tîm pêl-droed Lloegr ym mis Chwefror 2010. Ar 25 Ebrill 2010, ysgrifennodd y *Sunday Mirror* erthygl am berthynas Rio Ferdinand gyda Carly Storey. Yn ôl yr erthygl, roedd Carley'n dal i fod yn gariad i Rio hyd yn oed ar ôl iddo briodi Rebecca Ellison ym mis Mehefin 2009.

Dywedodd yr erthygl bod gan Rio hanes o fod yn wyllt cyn 2006, fel rhywun sydd â llawer o wahanol gariadon ond, mewn cyfweliad gyda phapur newydd arall, sef *News of the World*, yn 2006, honnodd nad oedd yn ymddwyn felly mwyach, a gwnaeth addewid i beidio â mynd tu ôl i gefn ei wraig. Honnodd y papur newydd bod Rio yn dweud celwydd, gan ei fod e'n dal i fod yn anffyddiog i'w wraig, ac nid oedd wedi newid o gwbl.

Aeth Rio Ferdinand â'r *Sunday Mirror* i'r llys yn honni bod y papur wedi amharu ar ei hawliau dynol trwy gyhoeddi straeon am ei fywyd personol.

Dadl y Sunday Mirror oedd eu bod yn iawn i gyhoeddi'r stori i gywiro'r ddelwedd gyhoeddus roedd Rio wedi'i greu fel 'dyn teuluol', gan eu bod yn credu bod hon yn ddelwedd ffug. Roedden nhw'n cwestiynu a oedd yn fodel rôl digon da i fod yn gapten ar dîm pêl-droed Lloegr.

## TASG

Darllenwch y testun gyda'ch gilydd fel grŵp.

Cyfeiriwch at y Ddeddf Hawliau Dynol a gwnewch nodyn o ba hawliau dynol sy'n berthnasol yn yr achos hwn. Meddyliwch am hawliau Rio, a hawliau'r rheiny sy'n gweithio yn y papur newydd.

Penderfynwch pwy fydd yn actio'r rolau canlynol yn y llys ac yn ysgrifennu'r sgript ar gyfer eich cyflwyniad.

**ADRODDWR:** Byddwch yn cyflwyno'r achos i'r dosbarth gan esbonio'n glir beth yw manylion yr achos a pha hawliau dynol sydd ynghlwm.

**Y CYFREITHWYR ERLYN:** Byddwch yn siarad ar ran Rio Ferdinand. Rhaid i chi ddwyn perswâd ar weddill y dosbarth bod y papur newydd wedi amharu ar ei hawliau dynol, a chyfiawnhau eich barn.

**Y CYFREITHWYR AMDDIFFYN:** Byddwch yn siarad ar ran papur newydd y Sunday Mirror. Rhaid i chi ddwyn perswâd ar weddill y dosbarth bod y papur wedi gwneud y penderfyniad iawn i gyhoeddi'r stori, a chyfiawnhau eich barn.

Pwy fydd yn llwyddo i'ch perswadio?

# GWERS 2: Taflen waith 1

# Drama yn y llys

## ASTUDIAETH ACHOS 4

### Troseddwr yn cael ei anfon i fyw yn y wlad lle cafodd ei eni

Mae'r achos hwn yn ymwneud â dyn a gafodd ei eni ym Mhacistan ym 1971 ac a ddaeth i fyw yn y DU pan oedd yn saith mlwydd oed.

Ers 1992, mae wedi bod mewn trwbwl â'r heddlu yn gyson, ac mae wedi bod i'r carchar sawl gwaith am ladrata, trais, gyrru car heb drwydded a gyrru'n beryglus.

Yn 2006, gorchmynodd y llywodraeth y dylid anfon y dyn i fyw ym Mhacistan lle cafodd ei eni, ac ni ddylid ei ganiatáu i fyw yn y DU. Roedden nhw'n teimlo bod rhaid ei anfon i Bacistan er mwyn amddiffyn pobl eraill yn y DU rhag ei ymddygiad treisgar a throseddau eraill.

Honnodd y dyn bod hyn yn amharu ar ei hawliau dynol oherwydd mae ganddo chwech o blant yn y DU rhwng 12 a 17 oed, ac oherwydd roedd ei fam yn sâl iawn gyda diabetes a chyflwr ar y galon.

Nid yw mewn perthynas gyda mam ei blant mwyach. Dywedodd ei fod yn siarad gyda'i blant ar y ffôn bob dydd, ond nid oedd wedi'u gweld ers 2000.

## TASG

Darllenwch y testun gyda'ch gilydd fel grŵp.

Cyfeiriwch at y Ddeddf Hawliau Dynol a gwnewch nodyn o ba hawliau dynol sy'n berthnasol yn yr achos hwn. (Meddyliwch am hawliau'r dyn a hawliau a diogelwch pobl eraill sy'n byw yn y DU.)

Penderfynwch bwy fydd yn actio'r rolau canlynol yn y llys ac yn ysgrifennu'r sgript ar gyfer eich cyflwyniad.

**ADRODDWR:** Byddwch yn cyflwyno'r achos i'r dosbarth, gan esbonio'n glir beth yw manylion yr achos a pha hawliau dynol sydd ynghlwm.

**Y CYFREITHWYR ERLYN:** Byddwch yn siarad ar ran y dyn o Bacistan. Rhaid i chi ddwyn perswâd ar weddill y dosbarth y dylai gael ei ganiatáu i aros yn y DU a chyfiawnhau eich barn.

**Y CYFREITHWYR AMDDIFFYN:** Byddwch yn siarad ar ran y llywodraeth. Rhaid i chi ddwyn perswâd ar weddill y dosbarth bod y llywodraeth wedi gwneud y penderfyniad iawn i anfon y dyn yn ôl i Bacistan, a chyfiawnhau eich barn.

Pa ochr fydd yn llwyddo i'ch perswadio?

# GWERS 2: Taflen waith 1

# Drama yn y llys

## ASTUDIAETH ACHOS 5

### Cau cartrefi gofal

Roedd awdurdod lleol yng ngogledd Lloegr eisiau cau dau gartref gofal i bobl hŷn, er mwyn arbed arian.

Dywedon nhw y byddent yn siarad â'r bobl sy'n byw yn y cartrefi gofal a'u teuluoedd i sicrhau eu bod yn ystyried eu barn wrth wneud y penderfyniad.

Ar ôl cyfres o gyfarfodydd, daeth Panel Craffu ac Adolygu y Cyngor ynghyd a phenderfynwyd cau'r cartrefi. Aeth y bobl oedd yn byw yn y cartrefi â'r cyngor i'r llys, gan ddadlau nad oedd y cyngor wedi ystyried eu hawliau dynol wrth benderfynu cau'r cartrefi gofal.

Dadl yr awdurdod lleol oedd y bu rhaid iddynt gau'r cartrefi i arbed arian, ac y byddai hyn yn golygu y gallant ddiogelu gwasanaethau eraill fel gofal iechyd ac addysg ar gyfer y gymuned ehangach.

## TASG

Darllenwch y testun gyda'ch gilydd fel grŵp.

Cyfeiriwch at y Ddeddf Hawliau Dynol a gwnewch nodyn o ba hawliau dynol sy'n berthnasol yn yr achos hwn. Meddyliwch am hawliau'r bobl hŷn a hawliau'r gymuned ehangach sy'n derbyn gwasanaethau gan y cyngor.

Penderfynwch pwy fydd yn actio'r rolau canlynol yn y llys ac yn ysgrifennu'r sgript ar gyfer eich cyflwyniad.

**ADRODDWR:** Byddwch yn cyflwyno'r achos i'r dosbarth, gan esbonio'n glir beth yw manylion yr achos a pha hawliau dynol sydd ynghlwm.

**Y CYFREITHWYR ERLYN:** Byddwch yn siarad ar ran trigolion y cartrefi gofal a'u teuluoedd. Rhaid i chi ddwyn perswâd ar y dosbarth bod penderfyniad y cyngor i gau'r cartrefi gofal yn anghywir, a chyfiawnhau eich barn.

**Y CYFREITHWYR AMDDIFFYN:** Byddwch yn siarad ar ran y cyngor. Rhaid i chi berswadio'r dosbarth nad oedd gan y cyngor ddigon o arian i gadw'r cartrefi gofal ar agor, a'u bod wedi ystyried hawliau trigolion y cartrefi gofal.

Pa ochr fydd yn llwyddo i'ch perswadio?

# GWERS 2: Taflen waith 1

# Drama yn y llys

## ASTUDIAETH ACHOS 6

### Ansawdd bywyd dwy ferch ifanc anabl

Roedd dwy ferch ifanc (11 ac 13 oed) ag anableddau dysgu a chorfforol difrifol yn byw gartref gyda'u mam a'u llystad.

Roedd angen gofal arnynt 24 awr y dydd, a chymorth gyda holl weithgareddau eu bywydau pob dydd. Roedd gan y merched weithwyr gofal o'r cyngor fyddai'n dod i helpu'r teulu.

Yn y cartref, roedd peiriant codi'n cael ei ddefnyddio'n aml i godi'r merched ifanc o'r gwely neu'r bath. Hefyd, roedden nhw'n mwynhau nofio, marchogaeth a siopa, a gan nad oedd peiriant codi ar gael y tu allan i'r tŷ, roedd angen i'w gweithwyr gofal eu codi'n aml.

Gosododd y cyngor reol newydd oedd yn dweud na chaniateir i'w gweithwyr gofal godi pethau trwm mwyach. Cafodd hyn ei wneud i ddiogelu iechyd gweithwyr y cyngor yn gyffredinol, ond roedd hefyd yn golygu nad oedden nhw'n gallu mynd â'r merched allan o'r tŷ mwyach.

Aeth teulu'r merched â'r cyngor i'r llys yn honni bod y gwaharddiad codi yn effeithio ar ansawdd bywyd a hawliau dynol y merched.

## TASG

Darllenwch y testun gyda'ch gilydd fel grŵp.

Cyfeiriwch at y Ddeddf Hawliau Dynol a gwnewch nodyn o ba hawliau dynol sy'n berthnasol yn yr achos hwn. Meddyliwch am hawliau'r merched a hawliau'r gweithwyr gofal.

Penderfynwch pwy fydd yn actio'r rolau canlynol yn y llys ac yn ysgrifennu'r sgript ar gyfer eich cyflwyniad.

**ADRODDWR:** Byddwch yn cyflwyno'r achos i'r dosbarth, gan esbonio'n glir beth yw manylion yr achos a pha hawliau dynol sydd ynghlwm.

**Y CYFREITHWYR ERLYN:** Byddwch yn siarad ar ran y merched a'u teulu. Rhaid i chi berswadio gweddill y dosbarth bod gweithredoedd y cyngor yn erbyn hawliau dynol y merched, a chyfiawnhau eich barn.

**Y CYFREITHWYR AMDDIFFYN:** Byddwch yn siarad ar ran y cyngor. Rhaid i chi berswadio'r dosbarth bod gwahardd codi yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn hawliau gweithwyr gofal y cyngor, a chyfiawnhau eich barn.

Pa ochr fydd yn llwyddo i'ch perswadio?

# GWERS 2: Nodiadau'r athro

## DRAMA YN Y LLYS: Y FARN A RODDWYD AR YR ACHOSION

### ACHOS 1: DULLIAU 'KETTLE'

I ddechrau, dyfarnodd y llys bod dulliau 'kettle' (atal) y defnyddiodd yr heddlu gyda'r protestwyr Climate Camp ar 1 Ebrill 2009 yn ddiangen ac yn anghyfreithlon. Dywedodd y barnwyr bod y tactegau a ddefnyddiwyd yn 'ddiangen o anhyblyg' ac wedi defnyddio 'grym anghyfiawn'. Er bod defnyddio dulliau 'kettle' yn gyfreithlon os na fydd dewis arall gan yr heddlu, ac mae risg fawr o drais, yn yr achos hwn, roedd y barnwyr yn credu nad oedd y risg yn ddigon uchel i gyfiawnhau hynny.

Yr hawliau perthnasol i'r protestwyr yn yr achos hwn yw 'yr hawl i ymgynnull yn heddychlon' (Erthygl 11), 'yr hawl i fynegi eich safbwynt a'ch barn' (Erthygl 10), a'r 'hawl i ryddid a diogelwch' (Erthygl 5). Rhaid i unrhyw gyfyngiadau a roddir ar yr hawliau hyn fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Bu rhaid i'r barnwyr gydbwyso'r rhain yn erbyn yr angen cyffredinol ar gyfer trefn a diogelwch cyhoeddus.

Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2011, apeliodd yr heddlu yn erbyn y penderfyniad hwn a phenderfynodd barnwyr gwahanol fod modd cyfiawnhau cadw'r protestwyr Climate Camp mewn 'kettle' gan fod y ddwy brotest chwarter milltir yn unig oddi wrth ei gilydd, a bu rhai cysylltiadau rhwng y ddwy brotest (cawsant eu hysbysebu ar y wefan gydag enwau tebyg, ac roedden nhw'n rhan o grŵp o brotestiadau oedd yn digwydd ar y pryd). Felly, roedden nhw'n teimlo bod yr heddlu wedi gwneud y penderfyniad mewn ewyllys da, a bod risg go iawn o darfu ar yr heddwch.

***Achos:*** *Moos & Anor, R (on the application of) v Police of the Metropolis [2011] EWHC 957*
***Ffynhonnell:*** *bailii.org (chwiliwch am kettling climate camp)*

### ACHOS 2: MAE TARO PLANT YN RHAN O FY NGHREFYDD

Dyfarnodd y llys yn erbyn y rhieni a'r athrawon oedd eisiau defnyddio cosbau corfforol. Er bod y barnwyr yn derbyn bod y gyfraith yn erbyn cosb gorfforol yn amharu ar hawl y rhieni i ryddid crefydd dan Erthygl 9, roedd angen cydbwyso'r hawl hwn yn erbyn hawliau'r plant. Roedd y barnwyr yn teimlo bod nod ddilys i'r gwaharddiad statudol. Roedd plant yn agored i niwed a nod y ddeddfwriaeth oedd eu hamddiffyn a diogelu eu lles. Roedd cosbau corfforol yn golygu cyflawni trais corfforol yn fwriadol. Bwriad y ddeddfwriaeth oedd diogelu plant rhag gofid, poen ac effeithiau niweidiol eraill y gallai trais corfforol eu hachosi. Felly, rhoddodd y barnwyr hawliau'r plant (yn enwedig Erthygl 3 y Ddeddf Hawliau Dynol – yr hawl i beidio cael eich arteithio na'ch trin mewn ffordd greulon neu sy'n codi cywilydd, a hawliau eraill plant yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) uwchben hawl y rhieni i'w credoau crefyddol.

***Achos:*** *Williamson v Secretary of State for Education*
***Ffynhonnell*****:** *bailii.org (chwiliwch am enw'r achos)*

### ACHOS 3: RIO FERDINAND

Dyfarnodd y barnwr o blaid y *Sunday Mirror* yn yr achos hwn. Bu rhaid i'r barnwr gydbwyso hawl Rio i fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8) yn erbyn hawl y papur newydd i fynegi ei safbwynt a'i farn (Erthygl 5). Dywedodd y barnwr, er bod hawl yr hawlydd i fywyd preifat a theuluol yn berthnasol, bod cywiro'r ddelwedd ffug a hyrwyddir gan yr hawlydd er lles y cyhoedd. Hefyd, gwelwyd bod yr erthygl yn cyfrannu at ddadl ynghylch pa mor addas oedd yr hawlydd i fod yn fodel rôl yng ngoleuni ei benodiad yn gapten tîm pêl-droed Lloegr.

**Darllenwch fwy:** *dailymail.co.uk/news/article-2043331/Rio- Ferdinand-affair-Footballer-loses-kiss-tell-privacy-case- Sunday-Mirror*
***Achos:*** *Ferdinand v Mgn Ltd (Rev 2) [2011] EWHC 2454 (QB)*
***Ffynhonnell:*** *bailii.org (chwiliwch am Rio Ferdinand sunday mirror)*

## ACHOS 4: TROSEDDWR YN CAEL EI ANFON I FYW YN Y WLAD LLE CAFODD EI ENI

Yn yr achos hwn, dyfarnodd y llys y byddai allgludo'r dyn yn ôl i Bacistan yn gyfreithlon, felly ni chafodd ddychwelyd i'r DU. Bu rhaid i'r barnwyr gydbwyso hawl y dyn i breifatrwydd a bywyd teuluol (Erthygl 8) gyda dyletswydd y wladwriaeth i ddiogelu ei ddinasyddion rhag trosedd a thrais. Er y derbyniodd y barnwyr bod gan y dyn deulu yn y DU, roedd ganddo deulu ym Mhacistan hefyd. Roedd y barnwr yn teimlo, gan nad oedd wedi gweld ei blant ers 2000, bod cryfder ei glymau teuluol yn y DU yn wan. Yn ogystal, roedd pedwar o'i blant wedi cael eu hystyried i fod 'mewn perygl' gan y gwasanaethau cymdeithasol yn sgil ymddygiad y dyn tuag atynt a'u mamau, felly roedd y barnwyr yn teimlo efallai y byddai'n well iddyn nhw fod hebddo. Ystyriwyd bod y risg roedd yn ei achosi i'r gymuned ehangach yn y DU yn uchel iawn, gan ei fod wedi parhau i droseddu hyd yn oed ar ôl cael ei ryddhau o'r carchar.

***Ffynhonnell:*** *bailii.org*

## ACHOS 5: CAU CARTREFI GOFAL

Yn yr achos hwn, cafodd yr awdurdod lleol ei orchymyn i ailystyried ei benderfyniad i gau'r cartrefi. Y brif hawl ddynol oedd ynghlwm â'r achos oedd yr hawl i breifatrwydd a bywyd teuluol (Erthygl 8), ond gallai cau'r cartrefi effeithio ar hawliau eraill fel Erthygl 1 Protocol 1, sef yr hawl i fwynhau eich eiddo. Dan y Ddeddf Hawliau Dynol, mae dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i ystyried hawliau dynol yn eu holl benderfyniadau. Yn yr achos hwn, roedd y barnwr yn teimlo nad oedd yr awdurdod lleol wedi ystyried hawliau'r henoed yn y cartrefi gofal. Felly, dyfarnodd y barnwr y dylid adolygu'r penderfyniad, gan ystyried hawliau dynol.

***Ffynhonnell:*** *Human Rights Act Toolkit, J Watson and M Woolf, LAG 2008*

## ACHOS 6: ANSAWDD BYWYD MERCHED IFANC ANABL

Yn yr achos hwn, bu rhaid i'r barnwr bwyso a mesur hawliau'r merched i fywyd preifat a theuluol (Erthygl 6) gydag iechyd a diogelwch y gweithwyr gofal. Dyfarnodd y barnwr o blaid y merched, a dywedodd y byddai angen addasu'r gwaharddiad codi er mwyn galluogi'r gweithwyr gofal i godi yn ddiogel a fyddai'n galluogi'r merched i gymryd rhan yn y gweithgareddau hamdden a diwylliannol y gallai pobl eraill eu mwynhau. (Mae Erthygl 14 yn berthnasol yma hefyd, gan fod gan y merched hawl i beidio cael eu gwahaniaethu oherwydd eu hanableddau). Hefyd, dywedodd y barnwr y byddai gwrthod codi'r merched yn gallu effeithio ar eu hawliau dan Erthyglau 2 neu 3, os byddant yn syrthio ac yn cael eu gorfodi i aros mewn sefyllfa anniogel neu sy'n codi cywilydd.

# GWERS 2: Taflen Waith 2

## Dwy ochr i bob stori

Darllenwch y wybodaeth gefndirol, Detholiad A a Detholiad B, ac atebwch y cwestiynau ar y diwedd.

### GWYBODAETH GEFNDIROL

Mae ymchwil gan sefydliad o'r enw Liberty yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl yn y DU yn credu bod hawliau dynol yn bwysig. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ddadleuol. Mae'r llywodraeth a rhai pobl yn y cyfryngau eisiau cael gwared ohono, tra bod pobl eraill yn credu ei fod yn bwysig iawn. Mae'r gwahaniaeth barn hwn yn cael ei fynegi yn y papurau newydd.

Yn 2011, cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd, sef Theresa May, at achos hawliau dynol mewn araith yng nghynhadledd y Blaid Geidwadol:

'Mae pawb yn gwybod am y straeon am y Ddeddf Hawliau Dynol... Y mewnfudwr nad oes modd ei allgludo oherwydd – ac nid tynnu eich coes chi ydw i – mae ganddo gath fel anifail anwes. Dyma pam rwy'n parhau i gredu bod angen i'r Ddeddf Hawliau Dynol fynd.'

Roedd ei haraith yn cyfeirio at achos y dyn o Bolivia a'i hawl i fywyd teuluol. Mae'r achos hwn wedi cael sylw yn y papurau newydd mewn ffyrdd gwahanol iawn.

# DETHOLIAD A

## Mudwr sy'n wynebu allgludo'n ennill yr hawl i aros ym Mhrydain... gan fod cath ganddo

**O adroddiad gan y *Daily Mail* ym mis Hydref 2009**

Efallai mai dyma un o'r cynigion lleiaf tebygol i osgoi cael ei allgludo - ond fe lwyddodd. Cafodd ei ddatgelu ddoe bod mudwr anghyfreithlon wedi'i ganiatáu i aros ym Mhrydain gan fod cath ganddo.

Llwyddodd y dyn dienw o Bolivia i osgoi cael ei allgludo wedi iddo ddweud wrth y llys ei fod wedi prynu'r gath fel anifail anwes gyda'i gariad.

Dyfarnodd farnwyr mewnfudo y byddai ei anfon gartref yn torri ei hawliau dynol trwy amharu ar ei fywyd teuluol.

Arweiniodd y penderfyniad gan y Tribiwnlys Mewnfudo a Lloches at 'siom' yn y Swyddfa Gartref a rhyfeddod ymysg ymgyrchwyr gwrth-fudo, a gwestiynodd sut mae cath anwes yn gallu cael ei hystyried yn berthnasol mewn achos yn ymwneud â mewnfudo.

Dywedodd Syr Andrew Green o'r felin drafod Migration Watch fod y ddadl am y gath yn 'gwbl absẃrd' a'i fod yn rhoi enw drwg i agweddau'r barnwyr.

Fodd bynnag, dywedodd un barnwr mewnfudo, sef Judith Gleeson, yn y dyfarniad swyddogol, 'nad oedd angen i'r gath boeni am orfod addasu i lygod Bolivia mwyach'.

Gwnaed y dyfarniad am y gath gan y barnwr mewnfudo James Devittie ar ôl i'r dyn o Bolivia gyflwyno tystiolaeth ei fod yn berchen ar y gath ar y cyd â'i gariad, sy'n dangos ei fod wedi setlo ym Mhrydain, ac y byddai ei anfon oddi yno yn torri rheolau hawliau dynol.

Dywedodd y cyfreithiwr oedd yn cynrychioli'r dyn, sef Barry O'Leary, wrth y Sunday Telegraph fod y gath yn un manylyn ymysg llawer yn yr achos.

Dywedodd: 'Wrth roi rhesymau am y llwyddiant, gwnaeth y barnwr sylw ar gath y cwpwl. Cafodd ei hystyried fel rhan o fywyd y cwpwl gyda'i gilydd. Gofynnodd y Swyddfa Gartref i'r penderfyniad gael ei ailystyried.

'Eu dadl oedd y dylid ei ailystyried gan fod y penderfyniad yn anghywir o ran y gyfraith, ac un camgymeriad a nodwyd oedd y rhoddwyd gormod o bwyslais ar gath y pâr wrth ystyried.'

Dywedodd Syr Andrew Green: 'Mae ystyried anifeiliaid anwes mewn materion mor bwysig yn gwbl absẃrd – ni allwch chi ddyfeisio'r peth.

'Mae hyn yn symptomatig o agwedd llawer o farnwyr, sef diffyg ystyriaeth lwyr i effaith penderfyniadau o'r fath ar ddyfodol ein cymuned.'

(Daily Mail/Solo Syndication)

# DETHOLIAD B

## Hanes hynod Theresa May am gath dyn o Bolivia

**O erthygl gan James Welch yn *The Guardian*, 4 Hydref 2011**

Efallai bod cynhadledd y Torïaid wedi llyncu enghraifft May o gamddefnyddio'r Ddeddf Hawliau Dynol, ond mae'n camliwio'r achos.

'Nid tynnu eich coes ydw i,' dywedodd yr Ysgrifennydd Cartref [ar y pryd], wrth iddi sôn am ffolineb arall y Ddeddf Hawliau Dynol wrth y ffyddloniaid Torïaidd: ni chafodd 'mudwr anghyfreithlon' ei allgludo gan fod cath ganddo.

Mi ddechreua' i gyda phwynt bach: nid oedd y dyn, sy'n hanu o Bolivia, yn 'fudwr anghyfreithlon'. Daeth i'r wlad yn gwbl gyfreithlon fel myfyriwr, ond arhosodd y tu hwnt i ddyddiad terfyn ei fisa.

Yn fwy arwyddocaol, doedd gan ei hawl i aros yn y wlad ddim byd i'w wneud â'i gath. Roedd y dyn yn byw gyda menyw o Brydain am bedair blynedd cyn i'w achos gyrraedd y llysoedd mudo. Roedden nhw'n gwneud yr holl bethau y byddai unrhyw gwpwl yn ei wneud: prynu llestri, mynd i glybio, cael cath fel anifail anwes. Roedd eu cath yn un o sawl ffactor a ddefnyddiwyd gan y cwpwl fel tystiolaeth bod eu perthynas yn ddilys.

Dibynnodd y cwpwl ar bolisi'r Swyddfa Gartref oedd yn berthnasol ar y pryd (a sefydlwyd ym 1996 dan y llywodraeth Geidwadol ddiwethaf) sy'n dweud bod unrhyw un sydd wedi bod mewn perthynas â dinesydd Prydeinig (neu rywun o genedligrwydd arall sydd wedi 'setlo' yma) ers o leiaf dwy flynedd yn cael hawl i aros. Gwrthododd y Swyddfa Gartref y cais, ac apeliodd y cwpwl.

Erbyn i'r apêl gael ei glywed, roedd y polisi wedi'i ddirymu, ond roedd yn parhau i fod yn berthnasol i geisiadau oedd eisoes ar waith. Caniataodd y barnwr mewnfudo'r apêl am y rheswm hwnnw. Cafodd y dyn ei ganiatáu i aros. Nid oedd y dyfarniad yn berthnasol i'r gath o gwbl, ond clodd yr uwch-farnwr mewnfudo, a wrandawodd ar yr achos, ei dyfarniad â jôc go wan - ac un anffodus wrth edrych yn ôl: 'Does dim angen i'r gath boeni am orfod addasu i lygod Bolivia mwyach.'

(Guardian News & Media Ltd, 2011)

## Cwestiynau

- Darllenwch Ddetholiad A. Beth yw pwrpas yr erthygl?
- Darllenwch Ddetholiad B. Beth yw pwrpas yr erthygl?
- Cymharwch Ddetholiadau A a B. Sut mae'r awduron yn cyflwyno'r ffeithiau mewn modd gwahanol?
- Cymharwch Ddetholiadau A a B. Pa awdur sy'n llwyddo i berswadio'r darllenydd o'i farn yn y modd mwyaf effeithiol, a pham?

# GWERS 2

## Gwybodaeth gefndirol am y Ddeddf Hawliau Dynol

### BETH YW'R DDEDDF HAWLIAU DYNOL?

Mae Deddf Hawliau Dynol 1988 (DHD) yn diogelu hawliau dynol pawb yn y DU. Mae'n helpu i amddiffyn ein rhyddid, ein diogelwch a'n hurddas, ac mae'n ein helpu i ddwyn awdurdodau i gyfrif pan fydd pethau'n mynd o'i le.

Daeth i rym yn y wlad hon ar 1 Hydref 2000, ac roedd ganddo ddau brif nod:

- Dod â'r hawliau dynol sy'n cael eu hamddiffyn gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i gyfraith y DU. Cyn hynny, roedd yn fwy anodd i bobl gyffredin orfodi eu hawliau dynol. Roedd angen mynd yr holl ffordd i Lys Hawliau Dynol Ewrop yn Strasbourg i herio llywodraeth y DU os byddai'n amharu ar eich hawliau. Felly, mae'r DHD yn gwneud hawliau dynol yn fwy hygyrch - ar y cyfan, mae dod ag achos o flaen llysoedd y DU yn gynt, yn rhatach ac yn fwy ymarferol.

- Meithrin diwylliant newydd o barch tuag at hawliau dynol yn y DU. Nid yw hawliau dynol yn ymwneud â'r gyfraith yn unig a mynd ag achosion i'r llys – maen nhw'n berthnasol i lawer o'r penderfyniadau y mae pobl yn eu gwneud a sefyllfaoedd pobl bob dydd.

### PAM MAE'R DDEDDF YN BWYSIG?

Mae'r DHD yn berthnasol yn ein bywydau bob dydd ac mae'n amddiffyn pob un ohonom. Bob blwyddyn, mae nifer uchel iawn o bobl gyffredin yn y wlad hon yn defnyddio'r Ddeddf yn llwyddiannus. Mae wedi cael ei defnyddio i amddiffyn pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin mewn cartrefi gofal, i sicrhau bod plant anabl yn cael cludiant i'r ysgol, ac i amddiffyn menywod rhag cam-drin domestig. Mae wedi'i defnyddio gan gleifion ysbyty sy'n wynebu digartrefedd ar ôl cael eu rhyddhau a goroeswyr treisio nad oedd yr heddlu wedi ymchwilio i'w profiadau yn iawn.

Nid yw arwyddocâd y Ddeddf Hawliau Dynol wedi'i chyfyngu i benderfyniadau yn ymwneud ag unigolion; mae wedi'i defnyddio i gefnogi polisïau ac ymarfer ar lefel sefydliadau a gellir ei defnyddio yn ehangach yn y gymdeithas fel cyfranogiad dinesig, cynhwysiant a datblygu cymunedol.

### PA HAWLIAU Y MAE'R DHD YN EU DIOGELU HEDDIW?

- Yr hawl i fywyd
- Yr hawl i beidio cael eich arteithio na'ch trin mewn ffordd annynol neu ddiraddiol
- Yr hawl i dreial teg
- Yr hawl i fod yn rhydd rhag caethwasiaeth neu lafur dan orfod
- Yr hawl i ryddid a diogelwch
- Yr hawl i beidio cael eich cosbi heb y gyfraith
- Yr hawl i barch am fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth
- Yr hawl i ryddid i feddwl, cydwybod a chrefydd
- Yr hawl i ryddid mynegiant
- Yr hawl i ryddid i ymgynnull a chysylltu â phobl
- Yr hawl i briodi a magu teulu
- Yr hawl i beidio cael eich gwahaniaethu mewn perthynas ag unrhyw un o'r hawliau hyn sydd wedi'u cynnwys yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol
- Yr hawl i fwynhau eich eiddo yn heddychlon
- Yr hawl i addysg
- Yr hawl i etholiadau rhydd
- Diddymu'r gosb eithaf

### SUT MAE'R DDEDDF HAWLIAU DYNOL YN GWEITHIO?

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn gweithio mewn pedair prif ffordd.

- Rhaid i bob awdurdod cyhoeddus yn y DU, gan gynnwys ysgolion gwladol, barchu'r hawliau sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Hawliau Dynol yn eu holl weithredoedd. Yn ogystal â dyletswydd i beidio â cham-drin hawliau dynol, weithiau mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus fod yn rhagweithiol wrth sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu parchu, eu diogelu a'u cyflawni.
- Gall unrhyw un sy'n credu bod eu hawliau wedi'u torri gan awdurdod cyhoeddus ddwyn achos yn ei erbyn. Gall hyn fod trwy lysoedd y DU, neu mewn amrywiaeth o weithdrefnau eraill gan gynnwys tribiwnlysoedd, gwrandawiadau a gweithdrefnau cwynion. Gall unrhyw un yn y DU ddwyn achos dan y Ddeddf Hawliau Dynol – nid yw'r Ddeddf wedi'i chyfyngu i ddinasyddion y DU.
- Lle bynnag bo'n bosibl, rhaid dehongli a chymhwyso'r cyfreithiau presennol mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r hawliau dynol sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf

Hawliau Dynol. Os yw'n amhosibl dehongli darn presennol o ddeddfwriaeth sylfaenol yn y modd hwn, bydd y llysoedd yn cyhoeddi'r hyn a elwir yn 'ddatganiad anghydnawsedd'. Mae hyn yn anfon neges glir i ddeddfwyr y dylent newid y gyfraith i sicrhau ei bod yn gydnaws â hawliau dynol. Mae hyn yn sefydlu 'dialog democrataidd' rhwng canghennau'r llywodraeth, gan sicrhau bod y Senedd yn parhau i fod yn sofran yn y pen draw.
- Ar gyfer pob cyfraith newydd, rhaid i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y Bil wneud datganiad yn cadarnhau ei bod yn gydnaws â'r Ddeddf Hawliau Dynol (neu esbonio pam nad yw'n gydnaws). Mae hyn yn golygu bod rhaid ystyried hawliau dynol yn y broses o ddatblygu deddfwriaeth.

## BETH YW AWDURDOD CYHOEDDUS?

Nid yw 'awdurdod cyhoeddus' yn cael ei ddiffinio'n llawn yn y Ddeddf Hawliau Dynol, ond dylid ei ddehongli'n eang. Mae'n cynnwys holl adrannau llywodraeth ganolog ac awdurdodau lleol, yn ogystal ag ysgolion gwladol, ymddiriedolaethau GIG, carchardai, yr heddlu, llysoedd a thribiwnlysoedd.

## CYDBWYSO GWAHANOL HAWLIAU DYNOL

Nid yw pob hawl yn y Ddeddf Hawliau Dynol yn perthyn i'r un categori. Mae rhai yn hawliau 'absoliwt', sy'n golygu na all y wladwriaeth fyth amharu arnynt ac mae rhai nad ydynt yn absoliwt hefyd, sy'n golygu y gellir amharu arnynt mewn amgylchiadau penodol.

Mae tri gwahanol fath o hawliau:

**HAWLIAU ABSOLIWT** – ni ellir amharu arnynt na'u cyfyngu mewn unrhyw ffordd. Rhai enghreifftiau o hawliau absoliwt yw'r hawl i beidio cael eich arteithio neu eich trin mewn ffordd annynol neu ddiraddiol, a'r hawl i beidio cael eich trin fel caethwas.

**HAWLIAU CYFYNGEDIG** – gellir eu cyfyngu mewn amgylchiadau penodol a therfynedig, a nodir yn y Ddeddf Hawliau Dynol. Enghraifft o hawl gyfyngedig yw'r hawl i ryddid, y gellir ei chyfyngu mewn rhai achosion, er enghraifft os yw rhywun wedi'i gael yn euog o drosedd gan lys neu'n cael ei gadw dan orchymyn oherwydd problemau iechyd meddwl.

**HAWLIAU CYMWYSEDIG** – gellir amharu arnynt er mwyn diogelu hawliau unigolion eraill neu fudd y cyhoedd, er enghraifft, i amddiffyn diogelwch cenedlaethol neu sicrhau trefn gyhoeddus. Mae mwyafrif yr hawliau yn y Ddeddf Hawliau Dynol yn hawliau cymwysedig. Rhaid i unrhyw amhariad ar hawl cymwysedig fod:
- er mwyn cyflawni nod ddilys, er enghraifft i amddiffyn hawliau pobl eraill neu les yn ehangach
- yn gyfreithlon
- yn angenrheidiol
- yn gymesur (yn briodol ac nid yn ormodol dan yr amgylchiadau).

Enghreifftiau o hawliau cymwysedig yw Erthygl 8 (yr hawl i barchu bywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid i feddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 10 (rhyddid mynegiant), ac Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chysylltu).

**SYLWER:** Mae'r wybodaeth hon am y Ddeddf Hawliau Dynol wedi'i haddasu o Right Here, Right Now, y Weinyddiaeth Gyfiawnder/Sefydliad Hawliau Dynol Prydain, 2009

## HAWLIAU DYNOL YNG NGOGLEDD IWERDDON

Roedd y Cytundeb Aml-Blaid yn ddatblygiad pwysig yn y broses heddwch yng Ngogledd Iwerddon. Cafodd ei lofnodi ym mis Ebrill 1998 gan ddeg plaid wleidyddol yng Ngogledd Iwerddon oedd ynghlwm â'r trafodaethau, yn ogystal â llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon. Roedd y Cytundeb yn caniatáu i Gomisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon baratoi cyngor ar Fil Hawliau ar gyfer Gogledd Iwerddon. Byddai hyn yn diffinio hawliau sy'n ychwanegu at y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a byddai'n adlewyrchu amgylchiadau penodol Gogledd Iwerddon. Ond mae pobl Gogledd Iwerddon yn dal i ymgyrchu am Fil Hawliau ar gyfer Gogledd Iwerddon. Am ragor o wybodaeth, ewch i **amnesty.org.uk/northern-ireland-bill-rights**

## HAWLIAU DYNOL YN YR ALBAN

### DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 ('DHD')

Mae'r DHD yn berthnasol i'r Alban yn yr un modd yn union ag y mae'n berthnasol i weddill y DU. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus yr Alban, llysoedd a thribiwnlysoedd yr Alban ac unigolion y mae gan eu swyddogaethau natur gyhoeddus yn yr Alban weithredu mewn ffordd sy'n gydnaws â'r hawliau dynol a nodir yn atodlen 1 y DHD ('**hawliau'r Confensiwn**'). Gall peidio â gwneud hynny arwain at lysoedd yr Alban yn rhoi unrhyw ryddhad neu rwymedi y mae'n ystyried i fod yn briodol, gan gynnwys gorchymyn sy'n mynnu bod y gwneuthurwr penderfyniadau yn yr awdurdod lleol yn ail-wneud ei benderfyniad. Mae gan y llysoedd bŵer i ddyfarnu iawndal yn ôl yr angen er mwyn sicrhau 'boddhad cyfiawn', ond nid yw iawndal ariannol yn awtomatig, ac nid yw'n debygol o gael ei roi os oes dewis arall ar gyfer unioni'r amhariad hawliau dynol.

### DEDDF YR ALBAN 1998

Rhoddir rhagor o amddiffyniadau i hawliau dynol yn yr Alban trwy Ddeddf yr Alban 1998 ('Deddf yr Alban'), sef y ddeddfwriaeth sy'n gweithredu'r setliad datganoli ar gyfer yr Alban, ac a sefydlodd Senedd yr Alban. Mae'r ffyrdd y mae Deddf yr Alban yn mynd ymhellach na'r Ddeddf Hawliau Dynol o ran gwarantu ac amddiffyn hawliau'r Confensiwn yn cael eu nodi isod.

***Dim pŵer i lunio cyfreithiau sy'n anghydnaws â hawliau dynol***

Mae gan Senedd yr Alban bŵer i lunio cyfreithiau sy'n berthnasol yn yr Alban trwy basio Deddf Senedd yr

Alban ('**Deddf SA**'). Nid yw Senedd yr Alban wedi cael pwerau i lunio cyfreithiau sy'n mynd yn groes i hawliau dynol. Mae Adran 29 Deddf yr Alban yn sicrhau nad yw unrhyw Ddeddf SA sy'n cael ei basio gan Senedd yr Alban yn gyfraith i'r graddau y mae'n anghydnaws ag unrhyw un o hawliau'r Confensiwn yn y DHD. Y rheswm am hyn yw y byddai pasio cyfraith o'r fath yn mynd y tu hwnt i'r cymhwysedd ddeddfwriaethol a roddir i Senedd yr Alban gan Ddeddf yr Alban. Mewn achosion lle mae cyfreithlondeb Deddf SA, neu ddarpariaeth benodol ynddi, yn cael ei herio ar y sail hon, mae gan Uchel Brif Ynadlys, Llys y Sesiwn a'r Goruchaf Lys y pŵer i arwasgu'r Ddeddf SA neu'r ddarpariaeth berthnasol ar y sail ei fod yn mynd y tu hwnt i gymhwysedd Senedd yr Alban.

Felly, yn wahanol i gyfreithiau sy'n cael eu pasio gan Senedd y DU, sy'n parhau i fod yn orfodadwy yn gyfreithiol, hyd yn oed os bydd llys yn datgan eu bod yn torri hawliau dynol yn unol ag adran 4 y DHD, ni fydd Deddf SA (neu ddarpariaethau penodol Deddf SA) sydd wedi'i phasio gan Senedd yr Alban yn cael ei hystyried yn gyfraith os bydd llys yn penderfynu ei bod yn torri hawliau dynol.

Er mwyn atal hyn rhag digwydd, mae adran 31(1) Deddf yr Alban yn datgan y dylai'r unigolyn sy'n gyfrifol am y Bil (sef y Gweinidog perthnasol fel arfer) wneud datganiad bod y Bil yn rhan o gymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban, ac mae adran 31(2) yn datgan bod rhaid i'r Llywydd wneud penderfyniad ei fod yn rhan o gymhwysedd Senedd yr Alban. Wrth gwrs, mae hon yn ddarpariaeth ehangach a mwy pellgyrhaeddol nag adran 19 y DHD sydd dim ond yn mynnu bod y Gweinidog sy'n gyfrifol am Fil yn naill Dŷ Senedd San Steffan yn gwneud datganiad cydnawsedd sy'n dweud bod darpariaethau'r Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn (datganiad y gall y Senedd ddewis ei anwybyddu).

Yn yr un modd ag y mae adran 3 y DHD yn mynnu bod y llysoedd yn dehongli deddfwriaeth y DU cymaint â phosibl i alluogi cydnawsedd â hawliau perthnasol y Confensiwn, mae adran 101 Deddf yr Alban yn mynnu bod llysoedd yn defnyddio dull tebyg mewn perthynas â Deddfau SA ac is-deddfwriaethau Llywodraeth yr Alban. Mewn amgylchiadau lle gellir darllen deddfwriaeth neu ddarpariaethau penodol mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawliau dynol, dylai llysoedd ddehongli'r ddeddfwriaeth mewn ffordd sy'n golygu ei fod yn gydnaws, ac felly'n parhau i gael ei hystyried yn gyfraith. Y prif wahaniaeth rhwng y darpariaethau yw bod adran 3(1) y DHD yn galw am ddehongliad eang a bwriadus - 'lle bo'n bosibl i wneud hynny […] rhaid ei ddarllen a'i roi ar waith mewn ffordd sy'n gydnaws â hawliau'r Confensiwn' - tra bod adran 101(2) Deddf yr Alban yn nodi y dylid darllen y ddarpariaeth 'mewn ffordd mor gul â phosibl er mwyn ei ystyried yn gydnaws'.

***Dim pŵer i Weinidogion yr Alban weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawliau dynol.***

Pan sefydlwyd Senedd yr Alban, rhoddwyd y gallu i Weinidogion yr Alban arfer pwerau o fewn cymhwysedd datganoledig. Cyn datganoli, roedd y pwerau hyn yn cael eu harfer gan Weinidogion Llywodraeth y DU.

Ni all Gweinidogion yr Alban arfer y pwerau hyn mewn ffordd fyddai'n mynd yn groes i hawliau dynol. Mae Adran 57(2) Deddf yr Alban yn datgan nad oes gan aelod o Lywodraeth yr Alban bŵer i lunio is-ddeddfwriaeth na gweithredu mewn unrhyw ffordd arall sy'n golygu bod y ddeddfwriaeth neu'r weithred yn anghydnaws â hawliau'r Confensiwn. Mae hyn yn debyg i'r sefyllfa dan y DHD, ond mae hwn rywfaint yn llymach, o ystyried y gall llys arwasgu is-ddeddfwriaeth a grëwyd gan Weinidog y Llywodraeth yn unig dan y DHD, ar yr amod nad oedd angen i'r is-ddeddfwriaeth gael ei ddrafftio yn y modd hwnnw oherwydd darpariaeth deddfwriaeth sylfaenol.

***Hawliadau hawliau dynol***

Mae Adran 100 Deddf yr Alban yn nodi'r cyfyngiadau gweithdrefnol ar gyfer gwneud hawliad hawliau dynol dan y Ddeddf. Yn yr un modd â'r DHD, dim ond unigolion fyddai'n cael eu hystyried i fod wedi dioddef yr amhariad hawliau dynol honedig fydd yn gallu hawlio dan Ddeddf yr Alban. Hefyd, os yw'r amhariad y gwneir cwyn amdano yn weithred gan Weinidog yr Alban, fel arfer, mae angen i'r hawlydd ddod ag achos i'r llys o fewn blwyddyn o'r dyddiad y digwyddodd yr amhariad honedig.

## DYFODOL Y DDEDDF HAWLIAU DYNOL

Yn 2015, galwodd Llywodraeth y DU i'r Ddeddf Hawliau Dynol gael ei disodli gan Fil Hawliau Prydain, a 'chyfyngu ar rôl y Llys Hawliau Dynol Ewropeaidd.'

Mae cefnogwyr y Ddeddf yn awgrymu'r canlynol:
- byddai hyn yn arwain at system hawliau glastwraidd yn y DU, gyda mynediad gwahaniaethol a fyddai'n tanseilio cyffredinoldeb sylfaenol hawliau dynol;
- nid yw hawliau dynol yn fater y gall gwleidyddion gael gwared ohono pan mae'n gyfleus yn wleidyddol. Maen nhw yno i amddiffyn pobl gyffredin a chynnal safonau sylfaenol cymdeithas waraidd;
- os bydd y DU yn diddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol, bydd yn colli ei dilysrwydd a'i heffeithlonrwydd wrth godi llais dros gam-drin hawliau dynol mewn lleoedd eraill.

## ACHUBWCH EIN DEDDF

Mae Amnest Rhyngwladol yn ymgyrchu dros newid cadarnhaol o ran hawliau dynol yn y DU a ledled y byd. Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn enghraifft wych o ddiogelu hawliau dynol yn genedlaethol, ac mae'n helpu miloedd o bobl bob blwyddyn. Mae Amnest yn credu bod y Ddeddf yn bwysig, ac mae'n ymgyrchu i'w chadw: **savetheact.uk**

## GWERS 3

# Mia dia, y los derchos

## (Fy niwrnod a fy hawliau)

**NOD** Gwers Sbaeneg sy'n defnyddio'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Mae myfyrwyr yn dysgu sut i ddisgrifio eu trefn ddyddiol ac yn cymharu eu hawliau dynol â rhai dau o bobl ifanc sy'n siarad Sbaeneg. Gellir rhannu'r gweithgareddau dros ddwy wers, gan ddibynnu ar allu Sbaeneg y myfyrwyr.

### BYDD ANGEN

- **Taflen Adnoddau 1** Trefn ddyddiol Alejandro a Shirley (torrwch y cardiau a'u gosod mewn amlenni, un fesul pâr)
- **Taflen Adnoddau 2** Erthyglau'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yn Sbaeneg ac yn Gymraeg, wedi'u torri'n gardiau ac wedi'u gosod mewn amlenni
- Pinnau lliwio neu uwcholeuwyr
- Map

### DEILLIANNAU DYSGU

- Dysgu am fywydau pobl ifanc mewn gwledydd sy'n siarad Sbaeneg
- Ymarfer geirfa allweddol Sbaeneg wrth ddarllen ac ysgrifennu am drefn ddyddiol
- Amlygu hawliau dynol a sefyllfaoedd lle mae hawliau'n cael eu mwynhau neu eu gwrthod

### DECHRAU 5 munud

- Gofynnwch i'r myfyrwyr pa wledydd sy'n siarad Sbaeneg fel prif iaith/iaith gyntaf.
- Gofynnwch iddyn nhw ddod o hyd i'r gwledydd hyn ar fap - a dangoswch Fecsico.

### PRIF WEITHGAREDD 1 20 munud

Esboniwch y bydd y myfyrwyr yn astudio trefn ddyddiol Alejandro a Shirley.

- Geirfa allweddol: gan ddibynnu ar allu'r dosbarth, efallai yr hoffech gyflwyno berfau atblygol a geirfa allweddol arall yn ymwneud â'r drefn ddyddiol, neu eu hatgoffa ohonynt.
- Gan weithio mewn parau, rhowch amlen i'r myfyrwyr gyda threfn ddyddiol naill ai Alejandro neu Shirley ynddi, wedi'i thorri yn baragraffau. Gofynnwch i bob pâr ddarllen y paragraffau a'u rhoi yn y drefn gywir o fore tan nos.
- Yna, dylai pob pâr ymuno â phâr arall oedd yn gweithio ar y drefn ddyddiol arall (Alejandro neu Shirley) a chymharu'r ddwy. Gofynnwch i'r parau amlygu'r geiriau nad ydyn nhw'n eu gwybod a defnyddio geiriadur i greu cronfa eiriau.
- Trafodwch bob astudiaeth achos a chreu cronfa eiriau gyffredinol, gyda mewnbwn gan y dosbarth cyfan.

### PRIF WEITHGAREDD 2 15 munud

Bydd y myfyrwyr yn ystyried pa hawliau o'r Datganiad y mae Alejandro a Shirley yn eu profi.

- Mewn grwpiau, rhowch amlen i'r myfyrwyr sy'n cynnwys 20 cerdyn – 10 erthygl o'r Datganiad yn Sbaeneg a 10 yn Gymraeg. Rhaid iddyn nhw baru'r erthyglau Sbaeneg gyda'r rhai Cymraeg cyfatebol.
- Gofynnwch i'r myfyrwyr ddewis yr hawliau mae Shirley'n eu mwynhau. Trafodwch.
- Gofynnwch i fyfyrwyr ddewis yr hawliau sy'n cael eu gwrthod i Alejandro. Trafodwch.

## DATBLYGU 15 munud

Mi dia – bydd y myfyrwyr yn cwblhau tasg ysgrifennu unigol.

- Gan ddefnyddio'r gronfa eiriau a luniwyd yng Ngweithgaredd 1, gofynnwch i fyfyrwyr greu amserlen ar gyfer eu trefn ddyddiol eu hunain. Dylent geisio cynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl, cymaint o ferfau atblygol â phosibl a bod mor onest â phosibl.
- Mewn parau, gofynnwch i'r myfyrwyr edrych ar eu trefn ddyddiol ei gilydd ac, o'r cardiau Datganiad, dewis yr hawliau sy'n cael eu mwynhau gan eu partner. A oes unrhyw hawliau'n cael eu gwrthod? Gan ddibynnu ar allu'r dosbarth, gall yr athro fynd â'r cardiau Datganiad Cymraeg oddi wrthynt, fel bod y myfyrwyr yn defnyddio'r erthyglau Sbaeneg yn unig.

## CRYNHOI 5 munud

Yn awr, bydd y myfyrwyr yn cymharu eu hawliau nhw gyda rhai Alejandro a Shirley.

- Gofynnwch i'r myfyrwyr ddweud pa hawliau maen nhw'n eu mwynhau yn eu trefn ddyddiol.
- Ystyriwch a thrafodwch pa hawliau dynol y maen nhw'n eu mwynhau nad yw Alejandro a Shirley'n eu mwynhau, os o gwbl?
- Efallai yr hoffech esbonio bod hawliau dynol yn berthnasol i bawb mewn modd cyfartal. Gofynnwch i'r myfyrwyr beth maen nhw'n meddwl gellir ei wneud er mwyn i Alejandro fwynhau ei hawliau dynol.

## ESTYNIAD/GWAITH CARTREF

- Gofynnwch i'r myfyrwyr ddefnyddio'r rhyngrwyd i ddod o hyd i sefydliad sy'n ymgyrchu dros hawliau plant ar y stryd.
- Dywedwch wrth y myfyrwyr bod gan Amnest swyddfa ym Mecsico.

Me levanto muy pronto en mi casa. Vivo con mis padres y mis dos hermanos en una habitación pequeña.

Muchas veces tengo hambre cuando me levanto. A veces tomamos desayuno pero no siempre.

Si ganamos algo de dinero por la mañana compramos algo de comer. A veces compramos cosas para vender para ganar mas dinero. Cuando la gente sale del trabajo a la hora de comer abrillantamos sus zapatos y les vendemos cigarrillos o caramelos.

# GWERS 3: Taflen Adnoddau 1

## Trefn ddyddiol

### Alejandro y su día, en Mexico

### Edad: 13

**Torrwch y brawddegau a'u gosod mewn amlenni, un fesul pâr o fyfyrwyr.**

Me levanto muy pronto en mi casa. Vivo con mis padres y mis dos hermanos en una habitación pequeña.

Muchas veces tengo hambre cuando me levanto. A veces tomamos desayuno pero no siempre.

Si ganamos algo de dinero por la mañana compramos algo de comer. A veces compramos cosas para vender para ganar más dinero. Cuando la gente sale del trabajo a la hora de comer abrillantamos sus zapátos y les vendemos cigarrillos o caramelos.

Muchas veces estamos cansados por la tarde y buscamos sitio en un parque para dormir y descansar. Bebemos agua de la fuente en el parque. A veces otros niños se juntan con nosotros y intercambiamos cosas que hemos encontrado o comprado.

Al atardecer, intentamos ganar un poco más de dinero. Me gusta jugar al fútbol al atardecer, cuando no hace mucho calor. Después de jugar, volvemos a casa y cenamos juntos y hablamos del día.

Me lavo y me voy a la cama en el cuarto que comparto con mi familia. Siempre me duermo antes que mis hermanos o padres.

# GWERS 3: Taflen Adnoddau 1

## Trefn ddyddiol

### Shirley y su día, en Mexico

### Edad: 13

Me levanto y tomo mi desayuno y salgo de mi casa a las 7:00, más o menos. Vivo cerca del Parque México. De allí tomo el micro-para ir a mi colegio, Puckllasunchis. Del centro de la cuidad tengo que caminar todo el resto. Llego a mi colegio a las 7:40, más o menos. Mi hermana Diana va al mismo colegio que yo.

Antes de las clases tenemos tutoría y los tutores recogen las notas de nuestros padres, que nos dan permiso para hacer algunas actividades o para las reuniones. A esta hora también nos recuerdan lo que tenemos que hacer en las brigadas de trabajo. Es una forma de rotación, donde nos dan responsabilidades en el colegio para la semana. Las clases empiezan a las 8.

Empieza el recreo. Primero tomamos nuestro refrigerio: té o jugo con pan con jamón, queso o salchicha y fruta. Luego tenemos las lecciones hasta las 2:30. Durante estas horas tenemos la sesión de lectura.

Termina el colegio a las dos y media. Tomo el micro de regreso a casa. Cuando llego a casa, me cambio, almuerzo y luego ayudo a fregar los platos mientras mi hermana arregla el comedor.

Empiezo a hacer mis tareas. Luego juego con mi hermana o miro la televisión. También me gusta saltar a la comba y jugar vóleibol.

Ayudo a preparar la comida y luego generalmente veo la televisión.

Me lavo y me voy a la cama

# GWERS 3: Taflen Adnoddau 2

## Erthyglau'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol Sbaeneg

| | |
|---|---|
| Todos los seres humanos nacen libres e iguales en dignidad y derechos. Deben comportarse fraternalmente. | Toda persona tiene derecho a la libertad de reunion y de asociacion pacíficas. Nadie podrá ser obligado a pertenecer a una asociación. |
| Todo individuo tiene derecho a la vida, a la libertad y a la seguridad. | Toda persona tiene derecho a la propiedad, individual y colectivamente. |
| Toda persona tiene derecho a tomar parte libremente en la vida cultural de la comunidad, a gozar de los artes y a participar en el progreso científico y en los beneficios que de el resulten. | Todo ser humano tiene derecho, en todas partes, al reconocimiento de su personalidad jurídica. |
| Toda persona tiene derecho a la seguridad social. | Toda persona tiene derecho al descanso, al disfrute del tiempo libre, a una limitación razonable de la duración del trabajo y a vacaciones periódicas pagadas. |
| Toda persona tiene derecho a un nivel de vida que le asegure la salud y el bienestar, y en especial la alimentación, el vestido, la vivienda, la asistencia médica y los servicos sociales necesarios. La Maternidad y la infancia tienen derecho a cuidados y asistencia especiales. | Toda persona tiene derecho a la educación. La educación elemental y fundamental debe ser gratuita y promover el respeto a los derechos humanos. |

# GWERS 3: Taflen Adnoddau 2

## Erthyglau'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol Cymraeg

| | |
|---|---|
| Ganwyd ni oll yn rhydd. Mae gennym ni oll ein meddyliau a'n syniadau ein hunain. Dylem oll dderbyn yr un fath o driniaeth. | Mae gennym oll yr hawl i gyfarfod â'n ffrindiau ac i gydweithio mewn heddwch i amddiffyn ein hawliau. Ni all unrhyw un ein gorfodi i ymuno â grŵp pan na fyddwn yn dymuno gwneud hynny. |
| Mae gennym oll yr hawl i fywyd ac i fyw mewn rhyddid a diogelwch. | Mae gan bawb yr hawl i berchen pethau neu i'w rhannu. Ni ddylai unrhyw un fynd â phethau oddi wrthym ni heb reswm digonol. |
| Mae gennym oll yr hawl i'n ffordd o fyw ein hunain ac i fwynhau'r pethau da a ddaw yn sgil gwyddoniaeth a dysg. | Mae gennym oll yr un hawl i ddefnyddio'r gyfraith. |
| Mae gennym oll yr hawl i gartref, i feddu ar ddigon o arian i fyw ac i gymorth meddygol pan fyddwn yn sâl. Dylem oll fod yn rhydd i fwynhau cerddoriaeth, celf, crefft a chwaraeon. | Mae gennym oll yr hawl i orffwys o'n gwaith ac i ymlacio. |
| Mae gennym oll yr hawl i ddigon o fwyd, dillad, tai a gofal iechyd. Mae gan famau a phlant a phobl ddi-waith, hen bobl a phobl ag anabledd hawl i gymorth. | Mae gennym oll yr hawl i addysg ac i gwblhau addysg gynradd a ddylai fod am ddim. Dylem fod yn gallu dysgu ar gyfer gyrfa neu wneud defnydd llawn o'n sgiliau. |

## GWERS 4

# Rhyddid mynegiant

**NOD** Bydd y myfyrwyr yn trafod yr hawl i ryddid i lefaru gan ddefnyddio ffilmiau, testun llawn gwybodaeth ac astudiaethau achos. Gallant lansio eu prosiect ymgyrchu eu hunain.

## BYDD ANGEN

- **PowerPoint** Rhyddid mynegiant
- **Taflen Adnoddau 1** Ynglŷn ag Amnest Rhyngwladol
- **Taflen Adnoddau 2** Straeon llwyddiant rhyddid mynegiant
- **Taflen Adnoddau 3** Cynllunio ymgyrch
- **Clip fideo** *Signatures* (vimeo.com/14028444, 2 funud 30 eiliad)
- **Clip fideo** *You are powerful* (YouTube, chwiliwch am y teitl, 1 funud 30 eiliad)
- **Clip fideo** *Bullet* (vimeo.com/14028538, 1 mun)

## DEILLIANNAU DYSGU

- Ystyried hawl pobl i ryddid mynegiant a'r goblygiadau'n ymwneud â'i wrthod mewn gwahanol gyd-destunau
- Gwerthuso rôl Amnest Rhyngwladol yn feirniadol o ran cynnal rhyddid i lefaru
- Archwilio dulliau creadigol o weithredu ac ymgyrchu

## DECHRAU 5 munud

- Dangoswch y ddelwedd sy'n cyfleu gwrthod rhyddid mynegiant (sleid 2). Trafodwch gyda'r myfyrwyr beth mae'n ei gynrychioli yn eu barn nhw.
- Esboniwch y byddant yn ystyried yr hawl i ryddid mynegiant yn ystod y wers, sef Erthygl 19 y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (sleid 3).
- Rhannwch amcanion y wers (sleid 4).

## PRIF RAN 15 munud

Bydd y myfyrwyr yn ystyried achosion lle mae'r hawl i ryddid i lefaru wedi cael ei wrthod, ac mae pobl eraill wedi codi eu lleisiau ar eu rhan.

- Gan ddefnyddio Taflen Adnoddau 1 Ynglŷn ag Amnest Rhyngwladol, darllenwch yr adran Sut Dechreuodd Amnest. Dangoswch sleid 5.
- Mewn parau, gofynnwch i fyfyrwyr beth ddylai/allai fod wedi'i wneud yn achos y myfyrwyr ym Mhortiwgal. Gofynnwch i bob pâr roi syniad neu ddau i'r dosbarth.
- Darllenwch Ran 2 – Amnesty heddiw. Dangoswch sleid 6.
- Dangoswch Signatures – dyma ffilm gan Amnest sy'n dangos pŵer llofnod unigol ar lythyr neu ddeiseb.




© DERM



## DATBLYGU 35 munud

- Esboniwch fod sawl enghraifft o gam-drin hawliau dynol ledled y byd hyd heddiw, a bod gwaith amddiffynwyr hawliau dynol ac Amnest Rhyngwladol mor bwysig ag erioed.
- Mae yna nifer o achosion o bobl sydd wedi cael eu haflonyddu, eu herlid, mae rhywun wedi ymosod arnynt, neu maen nhw wedi cael eu carcharu a hyd yn oed eu llofruddio am godi eu llais. Esboniwch y byddant yn edrych ar rai achosion penodol lle mae pobl wedi cael eu carcharu am ddefnyddio eu hawl i ryddid i lefaru. Dangoswch sleid 7.
- Rhannwch y myfyrwyr yn grwpiau bach. Rhowch achos gwahanol i bob grŵp o Daflen Adnoddau 2 Straeon llwyddiant rhyddid mynegiant.
- Gofynnwch i fyfyrwyr ystyried rôl Amnest yn yr achosion hyn. Sut gwnaeth Amnest weithredu? Sut helpodd i newid y sefyllfa? Beth arall gellid fod wedi'i wneud ar y pryd?
- Gofynnwch i fyfyrwyr ystyried rôl yr unigolion yn yr achos o ran amddiffyn hawliau dynol. Beth roedden nhw'n gweithredu drosto? Pa gamau cymeron nhw? Beth ddigwyddodd yn sgil y camau hynny?
- Gofynnwch i bob grŵp adrodd yn ôl i'r dosbarth.
- Yna, bydd y myfyrwyr yn dylunio eu hymgyrch eu hunain ar gyfer achos cyfredol.

**NODYN I'R ATHRO:** Ymarfer yn y dosbarth yw hwn, yn hytrach na gweithred. Os bydd pobl eisiau cymryd camau dros Amnest, gweler **amnesty.org.uk/youth**

Dangoswch sleid 8 a dosbarthwch Daflen Adnoddau 3 Cynllunio ymgyrch.

Mae dau achos i ganolbwyntio arnynt:

- Bayram Mammadov a Giyas Ibrahimov
- Fomushoh Ivo Feh

Bydd angen i fyfyrwyr ddarllen hanes yr achos, ac yna thrafod sut gallant sefydlu ymgyrch Amnest creadigol ar gyfer eu hachos. Pa gamau fyddan nhw'n eu cymryd? Sut byddan nhw'n annog pobl eraill i gymryd rhan? Pwy fyddan nhw eisiau ei annog i gymryd rhan? Sut byddan nhw'n codi ymwybyddiaeth ohono? Beth fyddan nhw'n gobeithio ei gyflawni?

Gofynnwch i bob grŵp gyflwyno eu cynllun gweithredu i'r dosbarth.

## CRYNHOI 5 munud

Dangoswch y clip fideo *You Are Powerful*, neu Bullet os yw'n fwy addas i oedran eich myfyrwyr. Esboniwch i'r myfyrwyr er ein bod yn credu na allwn ni ysgogi newid wrth wynebu heriau mawr, mae gan bob un ohonom bŵer i wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

## ESTYNIAD/GWAITH CARTREF

Gofynnwch i'r myfyrwyr ymchwilio i erthygl Peter Benenson yn yr *Observer* ym 1961, a lansiodd Amnest. Gweler: **amnesty.org.uk/six-prisoners** Beth sy'n aros yn eich cof? Lluniwch restr.






# GWERS 4: Taflen Adnoddau 1

# Ynglŷn ag Amnest Rhyngwladol

## RHAN 1 SUT DECHREUODD AMNEST

Dechreuodd y cyfan gydag un syniad syml. Gall unrhyw un, yn unrhyw le, wneud rhywbeth i wneud y byd yn lle gwell.

Dechreuodd ym 1960, pan gafodd Peter Benenson, sef cyfreithiwr 40 mlwydd oed o Brydain, ei syfrdanu gan stori yn ei bapur newydd yn sôn am ddau fyfyriwr ym Mhortiwgal oedd wedi'u carcharu am saith blynedd ar ôl codi eu gwydrau mewn llwncdestun i ryddid.

Trodd ei syfrdan yn weithred. Ar 28 Mai 1961, ymddangosodd erthygl Peter Benenson *The Forgotten Prisoners* ym mhapur newydd yr *Observer*. Roedd yn adrodd straeon pobl oedd yn y carchar oherwydd eu syniadau yn unig.

Dyma'r paragraff cyntaf (wedi'i gyfieithu):
***'Agorwch eich papur newydd ar unrhyw ddiwrnod yr wythnos ac mi welwch chi adroddiad o rywle yn y byd sy'n sôn am rywun yn cael ei garcharu, ei arteithio neu ei ddienyddio gan fod ei farn neu ei grefydd yn annerbyniol i'w lywodraeth. Mae yna filiynau o bobl o'r fath yn y carchar... ac mae'r niferoedd yn cynyddu. Mae teimlad cyfoglyd o anallu yn taro darllenydd y papur. Ond, os byddai modd uno'r teimladau hyn o ffieiddra o amgylch y byd i greu gweithred gyffredin, byddai modd gwneud rhywbeth effeithiol.'***



Peter Benenson © AI

## RHAN 2 AMNEST HEDDIW

Yn yr erthygl hon, anogodd Peter Benenson ei ddarllenwyr i helpu rhyddhau pobl a garcharwyd am ddatgan eu barn yn heddychlon. Ei syniad oedd anfon llu o lythyrau protest at lywodraethau. Cafodd yr erthygl ei hailargraffu mewn papurau newydd ledled y byd, a chafodd ymateb gwych. O fewn wyth wythnos, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Amnest Rhyngwladol. Yn ei flwyddyn gyntaf, cafodd swyddfeydd Amnest Rhyngwladol eu sefydlu mewn saith o wledydd.

Heddiw, dros hanner canrif a Gwobr Heddwch Nobel yn ddiweddarach, mae Amnest yn fudiad byd-eang sydd â dros 7 miliwn o aelodau a chefnogwyr yn codi eu llais dros ddynoliaeth a hawliau dynol. Erbyn hyn, Amnest yw'r sefydliad hawliau dynol anllywodraethol mwyaf yn y byd, ac mae'n bresennol mewn dros 150 o wledydd.

Mae Amnest yn ymgyrchu dros gyfiawnder ym mhle bynnag mae'n cael ei wrthod. Mae'n diogelu pobl, yn amddiffyn eu hawl i ryddid, y gwirionedd ac urddas, ac mae cefnogwyr ym mhedwar ban byd yn ymyrryd pan fydd unigolion mewn perygl.

Ar y dechrau, roedd gwaith Amnest yn canolbwyntio ar garcharorion gwleidyddol. Bellach, mae'n mynd i'r afael â'r holl hawliau dynol, o'r farchnad arfau angheuol i droseddau corfforaethol, o'r gosb eithaf i gydraddoldeb rhywedd, o gaethwasiaeth plant i ryddid mynegiant.



# GWERS 4: Taflen Adnoddau 2

## Straeon llwyddiant rhyddid mynegiant



## ACHOS 1
## Carchar am hyrwyddo democratiaeth

**PWY**
Fred Bauma ac Yves Makwambala

**BLE**
Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo

**BETH DDIGWYDDODD?**
Yn y brifysgol, ffurfiodd Fred ac Yves grŵp ieuenctid o'r enw LUCHA – Fight for Change. Ym mis Mawrth 2015, cafodd y ddau eu harestio gyda 26 o bobl eraill yn ystod cynhadledd i'r wasg i lansio mudiad ieuenctid Filimbi. Ei nod oedd gwella addysg ddinesig ymysg pobl ifanc cyn etholiad cyffredinol 2016.

Cafodd Fred ac Yves eu cadw mewn carchar cyfrinachol am bythefnos heb fynediad i'w teulu na chyfreithwyr. Yna, cawsant eu cyhuddo o amrywiaeth o droseddau ffug gan gynnwys 'cynllwynio yn erbyn pennaeth y wladwriaeth' sy'n gallu arwain at y gosb eithaf.

**BETH WNAETH AMNEST?**
Ymddangosodd Fred ac Yves yn ymgyrch flynyddol Write for Rights Amnest yn 2015, ac ysgrifennodd dros 170,000 o bobl ledled y byd at yr awdurdodau yn mynnu eu bod yn cael eu rhyddhau yn syth.

**CANLYNIAD**
Cafodd y ddau eu rhyddhau ym mis Awst 2016 ar ôl 17 mis yn y carchar.

**'Dechreuais dderbyn llythyrau gan gefnogwyr Amnest, oedd yn bwerus dros ben, a helpodd fi i gadw fy mhen. Roedden nhw'n ein hamddiffyn ni gan fod yr awdurdodau'n gwybod bod miloedd o bobl yn gwylio.'**
Fred Bauma

# GWERS 4: Taflen Adnoddau 2

## Straeon llwyddiant rhyddid mynegiant



## ACHOS 2
## Carchar am ddweud eu barn

**PWY**
Phyoe Phyoe Aung a myfyrwyr yn Burma

**BLE**
Myanmar

**BETH DDIGWYDDODD?**
Ym mis Mawrth 2015, cafodd yr ymgyrchydd ifanc Phyoe Phyoe Aung a dros 100 o fyfyrwyr eu harestio'n dreisgar yn ystod protestiadau yn erbyn cyfraith addysg newydd a oedd, yn eu barn nhw, yn cyfyngu ar ryddid i lefaru a democratiaeth yn y system addysg. Phyoe Phyoe Aung yw ysgrifennydd cyffredinol undebau myfyrwyr mwyaf Myanmar. Cafodd y myfyrwyr eu carcharu a'u cyhuddo o gyfres o droseddau, gan gynnwys 'ymgynnull yn anghyfreithlon' a 'chodi terfysg' ac roedd llawer ohonynt yn wynebu dros naw mlynedd o garchar.
Roedd yn cael ei ystyried yn rhan o ymgais y wlad i dawelu ymgyrchu heddychlon.

**BETH WNAETH AMNEST?**
Ymgyrchodd Amnest i ryddhau'r myfyrwyr. Roedd Phyoe Phyoe Aung yn destun Cam Brys a gafodd ei anfon ledled y byd, ac ymddangosodd fel achos Write for Rights yn 2015 hefyd.

**CANLYNIAD**
Cafodd Phyoe Phyoe Aung a llawer o'r myfyrwyr eu rhyddhau ym mis Ebrill 2016, a chafodd yr holl gyhuddiadau eu gollwng.

**'Rwy'n hynod ddiolchgar i Amnest a phawb a gymerodd ran yn yr ymgyrch i'm rhyddhau. Mae mudiadau rhyngwladol fel hyn yn rhoi pwysau ar lywodraethau i'n rhyddhau yn gorfforol, ond mae gwybod eich bod yn sefyll gyda ni yn ein helpu ni'n feddyliol hefyd.'**
Phyoe Phyoe Aung

# GWERS 4: Taflen Adnoddau 2

## Straeon llwyddiant rhyddid mynegiant



## ACHOS 3
## Carchar am adrodd y newyddion

**PWY**
Peter Greste

**BLE**
Yr Aifft

**BETH DDIGWYDDODD?**
Yn 2013, gofynnwyd i'r newyddiadurwr Peter Greste weithio shifftiau ychwanegol dros y Nadolig mewn ystafell newyddion wahanol, felly aeth i Cairo i ohebu ar gyfer Al Jazeera English. Yn syth ar ôl y Nadolig, cafodd ei arestio'n ddirybudd ynghyd â dau gydweithiwr – yn syml, oherwydd eu bod nhw wedi adrodd y newyddion.

Ym mis Ionawr 2014, cafodd Peter a'i gydweithwyr eu cyhuddo o ddarlledu newyddion ffug a chynorthwyo gweithgareddau'r 'Muslim Brotherhood' anghyfreithlon, y mae'r awdurdodau'n eu rhestru fel sefydliad terfysgol. Cawsant eu dedfrydu i isafswm o saith i ddeng mlynedd o garchar. Ysgogodd ymateb cryf ledled y byd.

**BETH WNAETH AMNEST?**
Cyhoeddodd Amnest bod cymhelliad gwleidyddol i'r penderfyniad, a'i fwriad oedd tawelu sefydliadau'r cyfryngau sy'n feirniadol o'r awdurdodau sy'n rheoli yr Aifft ar y pryd. Galwodd y cefnogwyr am ryddhau'r newyddiadurwyr trwy gydol eu cyfnod yn y carchar.

**CANLYNIAD**
Ar ôl dros 400 diwrnod yn y carchar, cafodd treial Al Jazeera ei ddyfarnu yn anghyfreithlon ym mis Chwefror 2015. Cafodd Peter ei ryddhau ar yr amod ei fod yn cael eu allgludo o'r Aifft yn syth i'w famwlad, sef Awstralia. Cafodd ei gydweithwyr eu rhyddhau ym mis Medi y flwyddyn honno, yn dilyn pardwn gan yr Arlywydd.

**'Allwch chi ddim cael cymdeithas rydd heb wasg rydd. Yn yr Aifft heddiw, wyddoch chi na allwch roi cydbwysedd oherwydd gallwch fynd i'r carchar fel gwnaethon ni.'**
Peter Greste

# GWERS 4: Taflen Adnoddau 3

## Cynllunio ymgyrch

### Achos cyfredol 1



Giyas (chwith) a Bayram

**PWY**
Bayram Mammadov a Giyas Ibrahimov

**BLE**
Azerbaijan

**BETH DDIGWYDDODD**
Roedd yr ymgyrchwyr ifanc, Bayram a Giyas, 22 oed, yn flin gyda llywodraeth Azerbaijan, sy'n gorfodi rheolau llym ynghylch beth gall pobl ei wneud neu ei ddweud yn y wlad. Protestion nhw trwy baentio neges graffiti ar gerflun o'r cyn-arlywydd.

Ar ôl rhoi llun ohono ar Facebook, cafodd y ddau eu harestio ym mis Mai 2016, a'u harteithio i'w gorfodi i 'gyfaddef' i droseddau cyffuriau difrifol. Ym mis Rhagfyr, cafodd y ddau eu dedfrydu i 10 mlynedd yn y carchar.

**BETH MAE AMNEST WEDI'I WNEUD?**
Mae pobl ifanc ledled y DU wedi anfon negeseuon graffiti at y ddau fyfyriwr i godi eu hysbryd – ac i ddangos i awdurdodau'r carchar faint o sylw mae'r achos yn ei gael yn rhyngwladol. Hefyd, anfonwyd llythyrau at Arlywydd Azerbaijan yn gofyn iddo ollwng y cyhuddiadau a'u rhyddhau.

**Petaech chi'n gweithio i Amnest Rhyngwladol, beth fyddech chi'n ei wneud i ymgyrchu dros ryddhau Bayram a Giyas?**

- **Sut byddech chi'n trefnu ymgyrch greadigol ar eu cyfer?**
- **Pa gamau fyddech chi'n eu cymryd?**
- **Sut byddech chi'n annog pobl eraill i gymryd rhan?**
- **Pwy fyddech chi'n ei annog i gymryd rhan?**

Peidiwch ag anghofio am y gwahanol ffyrdd y mae Amnest yn ymgyrchu ar ran pobl e.e. ysgrifennu llythyrau, lobïo (er enghraifft, perswadio Aelodau Seneddol i ddefnyddio eu dylanwad i gyflawni rhywbeth), camau ar-lein, arddangosfeydd, codi ymwybyddiaeth, dangos cefnogaeth, digwyddiadau cyhoeddus, gwaith gyda phobl enwog.

**Sylwer:** *ymarfer dosbarth yw hwn, ac nid cam go iawn. I weithio ar achos cyfredol, gweler* ***amnesty.org.uk/jua***

# GWERS 4: Taflen Adnoddau 3

## Cynllunio ymgyrch



### Achos cyfredol 2

**PWY**
Fomusoh Ivo Feh

**BLE**
Camerŵn

**BETH DDIGWYDDODD**
Roedd y myfyriwr ysgol uwchradd, Fomusoh Ivo Feh, ar fin dechrau yn y brifysgol yng Nghamerŵn, pan dderbyniodd neges destun jôc gan ffrind: 'Mae Boko Haram yn recriwtio pobl ifanc 14 oed a hŷn. Amodau ar gyfer cael eich recriwtio: 4 pwnc ar lefel GCE, gan gynnwys crefydd.'

Roedd y neges yn jôc am ba mor anodd yw dod o hyd i swydd yng Nghamerŵn – mae hyd yn oed grŵp arfog fel Boko Haram yn gofyn am recriwtiaid â llawer o gymwysterau. Anfonodd Ivo y neges ymlaen at ffrind arall, a anfonodd y neges ymlaen at rywun arall. Ond ar ôl i athro weld y neges a'i dangos i'r heddlu, cafodd Ivo a'i ddau ffrind eu harestio ar ddiwedd 2014. Mae'r cyhuddiadau yn ei erbyn yn cynnwys ceisio trefnu gwrthryfel yn erbyn y wladwriaeth. Ar hyn o bryd, mae wedi'i garcharu, yn wynebu dedfryd o 20 mlynedd yn y carchar.

**BETH MAE AMNEST WEDI'I WNEUD?**
Ymddangosodd Ivo yn ymgyrch flynyddol Write for Rights Amnest yn 2016. Ysgrifennodd pobl at Arlywydd Camerŵn yn mynnu ei fod yn gollwng pob cyhuddiad yn erbyn Ivo a'i ffrindiau a'u rhyddhau. Hefyd, anfonwyd llythyrau o gefnogaeth iddo, a rhai ohonynt yn sôn am bêl-droed, gan ei fod yn hoff iawn o bêl-droed.

**Petaech chi'n gweithio i Amnest Rhyngwladol, beth fyddech chi'n ei wneud i ymgyrchu dros ryddhau Fomusoh Ivo Feh?**

- **Sut byddech chi'n trefnu ymgyrch greadigol?**
- **Pa gamau fyddech chi'n eu cymryd?**
- **Sut byddech chi'n annog pobl eraill i gymryd rhan?**

Peidiwch ag anghofio am y gwahanol ffyrdd y mae Amnest yn ymgyrchu ar ran pobl e.e. ysgrifennu llythyrau, lobïo (er enghraifft, perswadio Aelodau Seneddol i ddefnyddio eu dylanwad i gyflawni rhywbeth), camau ar-lein, arddangosfeydd, codi ymwybyddiaeth, dangos cefnogaeth, digwyddiadau cyhoeddus, gwaith gyda phobl enwog.

**Sylwer:** *ymarfer dosbarth yw hwn, ac nid cam go iawn. I weithio ar achos cyfredol, gweler* **amnesty.org.uk/jua**

## GWERS 5

# Ffoaduriaid a lloches

**NOD** Gan ddefnyddio stori wir a gweithgaredd chwarae rôl dramatig, bydd y myfyrwyr yn deall ac yn cydymdeimlo â cheiswyr lloches a ffoaduriaid.

### BYDD ANGEN

**DECHRAU**
- **PowerPoint** Ffoaduriaid a lloches
- **Taflen Adnoddau 1** Stori Farzad (un ar gyfer yr athro)

**PRIF RAN**
- **Taflen Adnoddau 2** Sgript yr athro ar gyfer chwarae rôl (un ar gyfer yr athro)
- **Taflen Adnoddau 3** Holiadur Jiberische ar gyfer pob myfyriwr (dewisol)
- Pinnau ffelt a taflenni mawr o bapur ar gyfer pob grŵp

### DEILLIANNAU DYSGU
- Helpu myfyrwyr i ddeall pam mae pobl yn dod yn geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid
- Deall rhyngddibyniaeth gwledydd
- Archwilio materion cyfoes ymhellach a chydymdeimlo â sefyllfa pobl sy'n ceisio lloches

### DECHRAU 20 munud
Bydd y myfyrwyr yn ystyried pam mae pobl yn dod yn ffoaduriaid trwy ddefnyddio ffeithiau ac astudiaeth achos.

- Gofynnwch i fyfyrwyr ddiffinio'r geiriau allweddol ar sleid 2, a'u cymharu â'r diffiniadau rhyngwladol ar sleid 3.
- Gofynnwch gwestiynau i'r dosbarth am niferoedd ffoaduriaid (sleid 4) a chymharu eu syniadau â'r atebion (sleid 5).
- Gofynnwch i'r myfyrwyr beth maen nhw'n ei wybod yn barod am Afghanistan. Dywedwch y byddwch yn darllen stori wir am Farzad, sef ffoadur a gyrhaeddodd y DU o Afghanistan. Darllenwch a thrafodwch stori Farzad.






## LLYTHYR BYGWTH MARWOLAETH




## PRIF RAN 35 munud

Gweithgaredd chwarae rôl i annog myfyrwyr i deimlo empathi â sefyllfa ffoaduriaid.

- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o bump neu chwech, a rhowch ddarn mawr o bapur a phinnau lliw i bob grŵp. Darllenwch y stori ar Daflen adnoddau 2 Sgript yr athro er mwyn chwarae rôl gyda'r dosbarth, a gofynnwch i bob grŵp ddychmygu eu bod yn rhan o'r teulu sy'n cael ei ddisgrifio. Dangoswch y llythyr bygythiad ar sleid 6 os hoffech chi.
- Gofynnwch i bob grŵp wneud y ddau benderfyniad a nodir ar y daflen. Pwy ddylai fynd? Beth ddylen nhw fynd gyda nhw?
- Parhewch y gweithgaredd gyda chi'n chwarae rôl y swyddog mewnfudo, a dosbarthwch gopi o'r Holiadur Jiberische i bob grŵp (dewisol).
- Penderfynwch pwy ddylai gael ei adael i mewn i'r wlad a phwy ddylai fynd yn ôl.

## DATBLYGU 10 munud

Camwch allan o'r rôl a thrafodwch y canlynol gyda'r myfyrwyr:

- Sut brofiad gawson nhw o fod yn geisiwr lloches?
- A yw hyn wedi newid eu safbwynt ynghylch ceiswyr lloches yn y wlad hon?

## ESTYNIAD/GWAITH CARTREF

Gall y myfyrwyr wneud mwy o waith ymchwil ar **amnesty.org.uk/asylum**

## BETH YW'R CYD-DESTUN HAWLIAU DYNOL?

Yr Erthyglau yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol sy'n arbennig o berthnasol i'r wers hon yw:

**Erthygl 14**
Pan fyddwn yn ofni camdriniaeth yn ein gwlad ein hunain, mae gennym oll yr hawl i ffoi i wlad arall er mwyn bod yn ddiogel.

**Erthygl 23**
Mae gan bob oedolyn yr hawl i swydd, i gyflog teg am ei waith ac i ymuno ag undeb llafur.

Am fersiwn syml o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, ewch i **amnesty.org.uk/udhr**

## GEIRFA DDEFNYDDIOL

**Undeb Llafur (*Trade Union*)**
Grŵp o weithwyr sydd wedi'u trefnu i amddiffyn a hyrwyddo eu hawliau a'u buddion.

**Chwyldro milwrol (*Military coup)***
Ymgais anghyfreithlon i ddisodli'r rheiny sydd mewn pŵer trwy rym. Mae'r term Saesneg yn dod o 'coup d'etat' yn Ffrangeg, sy'n golygu 'ergyd y wladwriaeth'.

# GWERS 5: Taflen Adnoddau 1

## Stori Farzad

Mae Farzad yn ffoadur a ddihangodd o Afghanistan pan oedd yn 15 oed. Dyma ei stori.

Cafodd Farzad ei eni yn Kandahar, Afghanistan, ym 1995. Bu farw ei fam wrth roi genedigaeth ac roedd ei dad yn deiliwr tlawd. Roedd yn mynychu dosbarthiadau crefyddol yn y mosg ac yn gweithio yn y farchnad gyda'i dad.

Ym mis Awst 2010, daeth dynion y Taliban i gartref Farzad i fynnu arian gan ei dad. Cafodd ei fygwth ganddynt, a dywedon nhw fod arno ddyletswydd i'w talu er mwyn eu galluogi i amddiffyn y wlad rhag tresmaswyr tramor. Dywedodd tad Farzad nad oedd yn gallu fforddio rhoi unrhyw arian iddyn nhw. Ateb y dynion oedd y byddan nhw'n mynd â Farzad gyda nhw os na fyddan nhw'n cael arian.

Drannoeth, aeth tad Farzad i chwilio am yr arian. Tra'i fod yn gwneud hynny, dychwelodd dynion y Taliban. Ceisiodd Farzad redeg i ffwrdd, ond cafodd ei daro gan y dynion, a'i orfodi i fynd i mewn i gar. Stryffaglodd Farzad i ddianc ond curwyd ef a gyrrodd y dynion i ffwrdd.

Ar ôl gyrru am ychydig, cyrhaeddon nhw ardal gyda gatiau o'i chwmpas. Roedd cynnwrf wrth i Farzad adael y car a llwyddodd i ddianc trwy redeg nerth ei draed trwy'r gât ac ar hyd y ddrysfa o strydoedd bach. Cyrhaeddodd ganol y dref ac aeth tuag at y farchnad. Ni aeth i stondin ei dad, oherwydd byddai'r dynion yn chwilio amdano, felly penderfynodd chwilio am Babar, sy'n ffrind i'w dad.

Roedd Babar wedi clywed eisoes bod Farzad wedi cael ei herwgipio, ac roedd yn llawn rhyfeddod pan welodd ef. Aeth Babar â Farzad at ei dad, oedd ar ben ei ddigon i'w weld. Roedd arno ofn y byddai'r Taliban yn dychwelyd, felly penderfynon nhw ddianc o Afghanistan yn syth. Gyda phob ceiniog o'u henillion, gwnaeth Babar drefniadau cyfrinachol i'w galluogi i adael.

Ffodd y ddau i Bacistan, lle dywedwyd y byddai angen iddyn nhw wahanu: rhaid i blant wneud un taith ac oedolion i wneud taith arall. Dywedwyd wrthyn nhw y byddan nhw'n gweld ei gilydd eto yn fuan.

Sawl diwrnod yn ddiweddarach, cyrhaeddodd Farzad Groeg, a chafodd ei roi ar lori. Doedd e ddim yn gwybod ble roedd e, na ble roedd yn mynd. Roedd arno ofn. Teithiodd mewn tywyllwch cyson yn y lori, ac roedd rhaid iddo fynd i'r tŷ bach yn y nos yn unig. Roedd yn llwglyd ac yn sychedig. O'r diwedd, daeth y lori i stop ac aeth y gyrrwr ag ef allan at y stryd. Pwyntiodd at adeilad mawr a dywedodd mai gorsaf heddlu yn y DU oedd hwn, lle byddai'n gweld ei dad unwaith eto.

Aeth Farzad i mewn. Roedd yn oer, yn flinedig ac yn fudr iawn. Gofynnodd menyw gwestiynau iddo mewn iaith nad oedd yn ei deall, ac yna pwyntiodd at gadair. Roedd wedi drysu'n lân. Oriau'n ddiweddarach, cyrrhaeddodd dyn oedd yn gallu siarad ei iaith.

# GWERS 5: Taflen Adnoddau 1

## Stori Farzad
### parhad

Esboniodd Farzad ei stori. I ddechrau, doedd yr awdurdodau ddim yn siŵr a oedden nhw'n ei gredu. Doedd dim pasbort ganddo, na thystysgrif geni, ac roedden nhw'n credu y gallai fod yn 18, nid 15. Ar ôl rhywfaint o ddadlau, cytunwyd mai 15 oed oedd Farzad, a chafodd ei osod gyda theulu Prydeinig-Iranaidd.

Ar ôl tri mis, ysgrifennodd Asiantaeth Ffiniau'r DU at Farzad i ddweud nad oedden nhw'n credu ei stori, a bod ei gais am loches wedi'i wrthod. Fodd bynnag, roedden nhw'n derbyn mai dim ond 15 oed ydoedd, a dywedon nhw y gallai aros yn y DU nes ei fod yn 17½ oed. Yna, byddant yn ailymweld â'i achos.

Penderfynodd cyfreithiwr Farzad apelio, a rhai wythnosau'n ddiweddarach, aeth Farzad i'r llys gyda'i ofalwyr, ei weithiwr cymdeithasol a'i gyfreithiwr. Yn y llys, bu rhaid i Farzad ddweud ei stori eto, a achosodd iddo deimlo'n bryderus ac yn ofidus iawn.

Gwrandawodd y barnwr yn ofalus iawn. Ar ôl ystyried yr achos, penderfynodd y barnwr bod stori Farzad yn wir ac y byddai'n rhy beryglus iddo ddychwelyd i Afghanistan, yn enwedig yn absenoldeb ei dad. Rhoddwyd statws ffoadur i Farzad, a chafodd ei ganiatáu i aros yn y DU.

# GWERS 5: Taflen Adnoddau 2

## Sgript yr athro ar gyfer y gweithgaredd chwarae rôl

**Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o bump neu chwech. Darllenwch y stori isod i'r dosbarth a dywedwch wrthyn nhw i ddychmygu eu bod yn rhan o'r teulu yn y stori.**

### GOSOD YR OLYGFA

Mae Dad yn gweithio fel newyddiadurwr yn y papur newydd lleol. Mae Mam yn fecanydd. Maen nhw wedi cael babi yn ddiweddar. Mae ganddyn nhw fab a merch sydd yn yr ysgol. Mae Nain mewn cadair olwyn, ac wedi bod yn sownd yn y tŷ ers ei strôc. Roedd Ewythr Ali, sy'n grefyddol iawn, yn garcharor gwleidyddol am sawl blwyddyn. Mae'n cael trafferth cerdded ac mae'n gloff ers bod yn y carchar. Mae gan Mam a Dad hen gar. Mae Dad wedi bod yn ffigwr amlwg yn undeb llafur y newyddiadurwyr lleol. Mae'r sefyllfa yn y wlad wedi newid yn eithaf dramatig yn ddiweddar.

### Dau fis yn ôl

Bu gwrthryfel milwrol. Roedd llawer o saethu ar y strydoedd. Roedd tanciau a cheir arfog ym mhob man. Cafodd llawer o bobl eu lladd a chafodd rhai eraill eu harestio. Cafodd cyrffyw ei osod, a rhaid i bawb aros dan do ar ôl iddi dywyllu erbyn hyn. Mae'r arweinwyr milwrol wedi meddiannu'r teledu a'r radio. Mae'n anodd iawn gwybod beth sy'n digwydd go iawn.

### Mis yn ôl

Dywedwyd wrth Dad bod yr arweinwyr milwrol newydd wedi arestio llawer o bobl. Mae pobl eraill, gan gynnwys unigolion crefyddol, gwleidyddion, llenorion ac undebwyr llafur wedi 'mynd ar goll'. Does neb yn gwybod ble maen nhw.

### Pythefnos yn ôl

Ymddangosodd erthygl mewn papur newydd lleol (oedd yn cefnogi'r disodliad milwrol). O dan ddarlun o benglog ac arch, roedd rhestr hir o bobl yn y dref oedd yn cael eu hystyried yn elynion y wladwriaeth. Roedd enw Dad ac Ewythr Ali ar y rhestr. Roedd wedi'i lofnodi gan: 'Gyfeillion y Famwlad'.

### Wythnos diwethaf

Daeth milwyr i'r ysgol yn chwilio am ŵr ein menyw cinio. Doedd e ddim yno. Felly aethon nhw â'r fenyw cinio a'i phlant oddi yno.

### Pedwar diwrnod yn ôl

Cyhoeddwyd bod sawl undeb llafur, gan gynnwys undeb y newyddiadurwyr, wedi cael eu gwahardd.

# GWERS 5: Taflen Adnoddau 2

## Sgript yr athro ar gyfer y gweithgaredd chwarae rôl
parhad

### Tri diwrnod yn ôl
Cafodd nodyn (gallwch ddangos y sampl i'r myfyrwyr ar sleid 6 y PowerPoint) ei wthio trwy ddrws cartref y teulu. Roedd wedi'i greu o lythrennau oedd wedi'u torri o bapurau newydd. Roedd yn dweud bod Dad yn 'ysbïwr ac yn asiant i'r gelyn' a bod 'ei ddyddiau'n mynd yn brin'. Roedd wedi'i lofnodi gan 'Gyfeillion y Famwlad'.

### Dau ddiwrnod yn ôl
Ffoniodd rhywun Ewythr Ali i ddweud wrtho am ddianc, gan fod pobl yn cynllwynio i gynnau tân yn ei dŷ.

### Ddoe
Dywedodd rhai plant yn yr ysgol bod criwiau o filwyr wedi bod yn chwilio trwy'r strydoedd mewn ardal gerllaw ac yn arestio pobl, gan gynnwys rhai aelodau o'r un undeb llafur â Dad.

### Heddiw
Bu sŵn tanio yn y prif sgwâr ac mae tryciau yn llawn milwyr wedi bod yn cyrraedd o flaen Neuadd y Dref. Mae yna rwystrau ar y ffordd sy'n atal yr holl geir. Maen nhw'n chwilio trwy bob trên. Mae'r teulu'n cwrdd i gael trafodaeth frys. Beth maen nhw'n mynd i'w wneud? Mae Dad yn dweud y dylai'r teulu ddianc a cheisio lloches wleidyddol dramor fel ffoaduriaid. Byddai'n cymryd llai nag awr i gyrraedd y ffin yn y car, ond byddai'r daith honno'n beryglus iawn. Byddai cerdded yno'n golygu taith wythnos gyfan o hyd trwy'r anialwch, ac yna coedwig uchel ar draws gwlad beryglus at y ffin. Yn awr, maen nhw'n clywed bod y milwyr yn dechrau chwilio yn eu stryd. Mae ganddynt 10 munud i benderfynu, cael trefn a dianc.

### PENDERFYNIADAU

**1. Pwy ddylai fynd?**
Rhaid i bob grŵp benderfynu pwy ddylai fynd, a phwy ddylai gael ei adael ar ôl neu ei anfon at berthnasoedd, neu guddio yn rhywle? A ddylen nhw gymryd Mam, Dad, y babi, Ewythr Ali, Nain, y plant? Gofynnwch i bob grŵp fod yn barod i adrodd eu hatebion yn ôl a'u trafod.

**2. Beth ddylen nhw fynd gyda nhw?**
Rhaid i bob grŵp greu rhestr o'r 10 peth mwyaf pwysig i fynd gyda nhw er mwyn croesi'r ffin i geisio lloches fel ffoaduriaid. Pan fydd pawb wedi cytuno, dylen nhw ysgrifennu'r rhestr neu dynnu lluniau'r eitemau a ddewiswyd ar y papur.

# GWERS 5: Taflen Adnoddau 2

## Sgript yr athro ar gyfer y gweithgaredd chwarae rôl
parhad

### TRAFODAETH
Mae'r grwpiau'n dweud pwy ddylai fynd, yn eu barn nhw, a beth oedd ar eu rhestrau. Dywedwch wrthyn nhw i gadw eu rhestrau'n ddiogel.

### CHWARAE RÔL (PARHAD)
Dywedwch wrth y dosbarth, ar ôl taith hir, anodd a brawychus, eu bod yn cyrraedd y ffin wedi blino'n lân ac yn llwglyd. Yn awr, bydd yr athro'n chwarae rôl y Swyddog Mewnfudo wrth yr ardal reoli pasportau.

### Cyrraedd yr ardal rheoli'r ffin
Gofynnwch i'r myfyrwyr pwy ydyn nhw a beth maen nhw'n ei wneud yma. Pan fyddan nhw'n dweud eu bod nhw mewn perygl ac mae angen man diogel arnyn nhw yn eich gwlad, dywedwch wrthyn nhw i ddweud yr hanes wrthoch chi. Dywedwch wrthyn nhw bod eu stori'n swnio'n annhebygol, ac rydych chi'n amau mai twyllwyr ydyn nhw.  A oes tystiolaeth ganddyn nhw yn eu bagiau? Gofynnwch iddyn nhw wagio eu bagiau (darllenwch yr eitemau ar eu rhestr). Gallai'r dystiolaeth gynnwys cerdyn undeb Dad, y bygythiad marwolaeth dienw a'r erthygl papur newydd.

Os oes unrhyw un ohonynt wedi rhestru arf ymysg eu 10 eitem, gofynnwch beth maen nhw'n bwriadu ei wneud gydag ef a gofynnwch ai terfysgwyr ydyn nhw. Ewch â'r arfau oddi wrthynt. Os ydyn nhw wedi dod â ffotograffau teuluol gyda nhw, ewch â'r rheiny hefyd, a dweud y gallan nhw fod yn ddefnyddiol wrth i chi ymchwilio.

### Holiadur Jiberische (dewisol)
Yn awr, dosbarthwch gopi o'r holiadur Jiberische i bob grŵp a gofyn iddyn nhw roi cynnig ar ei lenwi. Dywedwch wrthyn nhw bod cwestiynau 9 a 10 yn bwysig iawn yn eu hachos, ac y dylent gymryd gofal i'w hateb yn iawn. Efallai y bydd y myfyrwyr yn gallu darganfod yr ateb i rai o'r cwestiynau trwy ddefnyddio cod (e.e. mae rhai wedi'u hysgrifennu am yn ôl) ond bydd angen dyfalu rhai ohonynt.

Casglwch yr holiaduron Jiberische a phenderfynwch a yw'r atebion yn foddhaol. Os nad ydynt yn foddhaol, ac nid yw'r grwpiau'n gallu darparu unrhyw dystiolaeth ar gyfer eu stori, anfonwch nhw yn ôl fel 'ceiswyr lloches wedi methu'.

Esboniwch fod angen i geiswyr lloches lenwi ffurflenni mewn iaith nad ydynt yn ei deall yn aml, y gellir eu defnyddio i wneud penderfyniad ynglŷn â'u hachos.

# GWERS 5: Taflen Adnoddau 3

# Holiadur Jiberische

## GWLAD:

**Gallech ateb yn Gymraeg neu Jiberische**

## Treeyt masabi wedend

## Holiadur ceiswyr lloches

1. WNE FATNYC? SADET

2. DDEWYRH DDIAWYRWG DDIAWYNEB

3. DAIRIEFYC DESIN PAIE

COD POST (COD POST)

4. INEG DAIDDYD (EE/HH/RRRR): / /

5. PASSEPORTA DETAILLA DAIDDYD UTHRABSOD

6. JABEN DISE SDIKMAYSIE?

WNE: RISTIANEN: YOMEN:

7. KOM DEN NITIL ENKLAN SA?
M EFTIL PLANE HARAT EUROSTARA EUROSTAR

8. YEFT DA ENKLAN FERITA IPLEEDI?

9. DELTAD ENKLAN DARINDI MAGLINDA?

10. WAREI DAR FLOGET HARINDI LA NDT?

11. DOKUMENDEN (DOGFENNAU)
HAT DAR DOKUMENDEN JANGA HARI?

12. WAREI DAR FESTENE GUL GARITA MER VI?

## GWERS 6

# Ydy bod yn hoyw yn drosedd yn Boldofia?

**NOD** Gan ddefnyddio gweithgaredd chwarae rôl, bydd y myfyrwyr yn trafod hawliau LHDTRh mewn gwlad ddychmygol cyn ymchwilio i enghreifftiau tebyg presennol. Awgrym oedran 14-18.

### BYDD ANGEN

- **Taflen Adnoddau 1** Cefndir Boldofia (un fesul myfyriwr)
- **Taflen Adnoddau 2** Cardiau rolau

### DEILLIANNAU DYSGU

- Deall ei bod yn anghyfreithlon o hyd i fod yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol mewn rhai gwledydd
- Trafod pa hawliau sydd gennym mewn perthynas â'n rhywioldeb
- Amlygu ffyrdd o berswadio pobl i gynnal ac amddiffyn hawliau grwpiau lleiafrifol rhywiol a rhyweddol

### DECHRAU 5 munud

- Gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen y daflen sy'n disgrifio cefndir y sefyllfa yn 'Boldofia'. Mae rhywfaint o debygrwydd rhwng y sefyllfa yn y wlad ddychmygol Boldofia a'r sefyllfa yn Rwmania ym 1997, pan oedd gweithredoedd cyfunrywiol rhwng oedolion sy'n cydsynio'n anghyfreithlon o hyd, a dyma oedd y sefyllfa yn nhraean gwledydd y byd.

### PRIF RAN 35 munud

- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach. Penodwch un grŵp i fod yn Bwyllgor. Byddant yn gwrando ar y dystiolaeth er mwyn gwneud argymhellion ynghylch cyfunrywioldeb i lywodraeth Boldofia. Rhaid iddyn nhw baratoi cwestiynau i'w holi i'r holl grwpiau sy'n cynnig tystiolaeth.
- Mae'r grwpiau eraill yn cael y cardiau chwarae rôl. Maen nhw'n paratoi eu tystiolaeth i'w chyflwyno i'r Pwyllgor. Ar ôl clywed yr holl dystiolaeth, bydd y Pwyllgor yn dadlau ac yn cytuno ar ei argymhellion. Bydd gweddill y dosbarth, tu allan i'w rolau, yn gwneud nodiadau ar:
  - Pa dystiolaeth lwyddodd i berswadio'r Pwyllgor fwyaf?
  - A yw barn bersonol unrhyw aelod o'r Pwyllgor yn meddiannu'r ddadl?
  - Beth yw eu barn am benderfyniadau a rhesymau'r Pwyllgor?

### CRYNHOI 15 munud

Yna, gall y dosbarth cyfan drafod y pynciau canlynol:

- Sut beth oedd bod yn rhan o'u grŵp?
- Oedden nhw'n cytuno â thystiolaeth eu grŵp eu hunain?
- Pa dystiolaeth oedden nhw'n cytuno â hi fwyaf/leiaf a pham?
- Beth oedd eu barn am benderfyniad y Pwyllgor?
- Beth fydd canlyniad y penderfyniad?

### ESTYNIAD/GWAITH CARTREF

Ewch i wefan Amnesty International UK (**amnesty.org.uk**) i ddysgu am gamau brys presennol ar gyfer pobl sy'n cael eu herlyn ar sail eu rhywioldeb a'u hunaniaeth rhywedd, ac i weithredu. Ymunwch â Rhwydwaith LHDTRh Amnesty International UK **amnesty.org.uk/join-lgbti-activist-network**

# GWERS 6: Taflen Adnoddau 1

## Cefndir Boldofia

Rydych chi'n byw mewn gwladwriaeth ddemocrataidd newydd (ddychmygol) yn nwyrain Ewrop o'r enw Boldofia. Wedi degawdau o lywodraeth dotalitaraidd, mae'r wlad eisiau ymuno â Chyngor Ewrop - sef sefydliad gwladwriaethau democrataidd Ewropeaidd sydd â chyfreithiau mwy goddefgar tuag at gyfunrywioldeb na Boldofia.

Ni fydd Cyngor Ewrop yn ystyried creu cysylltiadau gwleidyddol, economaidd a diwylliannol agosach gyda Boldofia nes iddo ddad-droseddoli cyfunrywioldeb. Mae llywodraeth Boldofia wedi penodi Pwyllgor i adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol.

Un o'r cyfreithiau mwyaf dadleuol sydd dan sylw yw Adran 8 y Cod Cosbi. Mae'r gyfraith hon yn condemnio cyfunrywioldeb fel 'ffieidd-dra yn erbyn natur'. Y gosb ar gyfer hyrwyddo cyfunrywioldeb yw dwy flynedd yn y carchar. Y gosb ar gyfer oedolion sy'n euog o weithredoedd cyfunrywiol yw pum mlynedd yn y carchar. Mae tystiolaeth ddi-sail un person yn ddigon i farnu rhywun yn euog dan y Ddeddf. Defnyddiwyd Adran 8 i arestio ac amau llawer o bobl yn Boldofia nad ydynt yn ddynion hoyw nac yn lesbiaid.

Sefydlwyd Pwyllgor o chwe aelod o Senedd Boldofia i wrando ar dystiolaeth gan y cyhoedd, ac i argymell a ddylid diddymu Adran 8 ac, os felly, beth ddylai ddigwydd wedyn. Bydd y pwyllgor yn gwrando ar gynrychiolwyr:
- Heddlu Boldofia
- Cyngor Hawliau Sifil Boldofia
- Cyngor Ffydd Boldofia
- Brigâd Gwerthoedd Teuluol Boldofia
- Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol Boldofia
- Cymdeithas Feddygol Boldofia
- Ymgyrch dros Gydraddoldeb Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol Boldofia
- Amnest Rhyngwladol

# GWERS 6: Taflen Adnoddau 2

## Cardiau rolau

### CERDYN RÔL 1 HEDDLU BOLDOFIA

Rydych chi'n cynrychioli heddlu Boldofia.

Datgelodd arolwg o heddlu Boldofia y farn ganlynol, sydd yn aml yn gwrthdaro â'i gilydd:

- Nid yw mwyafrif yr heddlu'n hoffi pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol, na chyfunrywioldeb.
- Mae rhai aelodau o'r heddlu yn lesbiaidd, hoyw neu'n ddeurywiol. Mae anghyfreithlondeb gweithredoedd cyfunrywiol yn arwain at lwgrwobrwyo'r rheiny sydd ynghlwm.
- Mae gweithredoedd cyfunrywiol rhwng oedolion sy'n cydsynio yn droseddau heb ddioddefwyr.
- O ystyried cyfradd gynyddol troseddau treisgar yn Boldofia, bydd yr adnoddau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i arestio pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn gallu cael eu defnyddio am resymau eraill.
- Gall dad-droseddoli cyfunrywioldeb arwain at gynnydd mewn pornograffi a phuteindra.
- Byddai'r gyfradd uchel bresennol o ymosodiadau treisgar ar bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn gostwng pe bai cyfunrywioldeb yn cael ei ddad-droseddoli.
- Byddai agweddau'r heddlu tuag at bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn dal i fod yn elyniaethus hyd yn oed pe bai Adran 8 yn cael ei ddiddymu.

### CERDYN RÔL 2 CYNGOR HAWLIAU SIFIL BOLDOFIA

Rydych chi'n cynrychioli Comisiwn Hawliau Sifil Boldofia, sydd newydd gael ei sefydlu.

Mae sefydliadau hawliau sifil a hawliau dynol yn Boldofia a thramor yn credu:
- Dylai lleiafrifoedd rhywiol fod â'r hawl i ddisgwyl cydraddoldeb llwyr dan gyfraith Boldofia, yn yr un modd â'r holl leiafrifoedd eraill.
- Mae gweithgarwch rhywiol rhwng oedolion sy'n cydsynio yn fater preifat, ac nid yw'n briodol ar gyfer deddfwriaeth y wladwriaeth.
- Gan fod Boldofia bellach yn un o lofnodwyr y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, rhaid iddi barchu Llys Hawliau Dynol Ewrop, sydd wedi mynnu ei fod yn anghyfreithlon i genhedloedd droseddoli perthnasoedd lesbiaidd, hoyw a deurywiol rhwng oedolion sy'n cydsynio.

### CERDYN RÔL 3 CYNGOR FFYDD BOLDOFIA

Mae Cyngor Ffydd Boldofia yn siarad ar ran pob ffydd crefyddol yn y wlad – Islam, Iddewiaeth a'r holl brif eglwysi Cristnogol, sef Uniongred, Catholig a Phrotestant.

Mae'r cyngor yn cynnwys elfen geidwadol ac elfen ryddfrydol – ac mae'r ddwy wedi'u cynrychioli yma. Mae'r cyngor yn honni ei fod yn siarad ar ran 68% o boblogaeth Boldofia.

Mae rhai o aelodau rhyddfrydol eich cyngor yn credu:
- Dylai pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol gael cymorth, nid cosb.
- Dylid diddymu'r cyfreithiau yn erbyn cyfunrywioldeb.
- Byddai cydnabyddiaeth o briodasau lesbiaidd a hoyw y wladwriaeth yn 'mynd yn rhy bell'.

Mae rhai o aelodau ceidwadol eich cyngor yn credu:
- Mae ysgrythurau sanctaidd yn ystyried bod gweithredoedd cyfunrywiol yn bechodau.
- Dylai'r wladwriaeth gryfhau moesoldeb traddodiadol.
- Gallwch annog eich dilynwyr i roi pwysau ar ddeddfwyr yn erbyn diddymu Adran 8.

## CERDYN RÔL 4 BRIGÂD GWERTHOEDD TEULUOL BOLDOFIA

Mae'r frigâd yn grŵp ceidwadol sydd â nifer fach o aelodau ond llais cryf iawn, gyda rhywfaint o gefnogaeth yn y llywodraeth newydd a'r cyfryngau. Rydych chi'n credu:

- Duw greodd drefn naturiol pethau - dynion a menywod – Adda ac Efa, nid Adda ac Adda.
- Mae cyfunrywioldeb yn wyrdroëdig ac yn salwch meddwl.
- Dylid teimlo trueni dros bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol a dylen nhw gael triniaeth i'w gwella.
- Y ffordd orau o wneud hyn yw yn y carchar.
- Ni fydd unrhyw blentyn yn ddiogel rhag dylanwad a cham-drin os caniateir i bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol fod yn athrawon, rhieni neu weithwyr ieuenctid.
- Yr uned deuluol draddodiadol yw'r unig le i fagu plant. Bydd y frigâd yn gwrthod unrhyw gynigion gan y llywodraeth i ehangu diffiniad 'teulu' yn llym.

## CERDYN RÔL 5 SEFYDLIAD YMCHWIL CYMDEITHASOL BOLDOFIA

Rydych yn aelod o gorff y wladwriaeth sy'n trefnu ymchwil cymdeithasol yn Boldofia.
O'ch gwybodaeth chi, rydych yn credu:

- Mae tua un person ym mhob 10 yn berson lesbiaidd neu hoyw yn Boldofia – mae hwn yn ffigwr sy'n adlewyrchu'r ystadegau rhyngwladol.
- Nid yw plant yn dioddef unrhyw niwed o gael rhiant lesbiaidd neu hoyw.
- Byddai'r gyfradd uchel o hunanladdiad ymysg pobl lesbiaidd a hoyw ar hyn o bryd yn gostwng pe bai cyfunrywioldeb yn cael ei ddad-droseddoli.

## CERDYN RÔL 6 CYMDEITHAS FEDDYGOL BOLDOFIA

Mae Cymdeithas Feddygol Boldofia yn cynrychioli meddygon Boldofia.

- Dylai gofal iechyd ac addysg iechyd gyrraedd cymaint o'r boblogaeth â phosibl.
- Mae addysg rhyw ddiogel ac atal HIV yn amhosibl heb gydnabod realiti amrywiaeth rywiol, a faint o berthnasoedd o'r un rhyw sydd yn Boldofia.
- Byddai mwy o bobl yn cael eu profi am haint HIV pe na bai perthnasoedd lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn anghyfreithlon.

## CERDYN RÔL 7 YMGYRCH DROS GYDRADDOLDEB LESBIAIDD, HOYW A DEURYWIOL BOLDOFIA

- Rydych yn aelodau o Ymgyrch dros Gydraddoldeb Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol Boldofia, sydd newydd gael ei sefydlu.
- Mae rhai o'ch aelodau yn lesbiaid ac yn ddynion hoyw enwog o Boldofia. Rydych chi wedi casglu cefnogaeth ryngwladol ar gyfer eich ymgyrch dros statws a hawliau cyfartal i bobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Prif elfennau eich ymgyrch yw:
  - Dylai pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol fod yn ddinasyddion llawn gyda diogelwch cyfartal dan y gyfraith.
  - Dylid diddymu pob cyfraith yn erbyn gweithredoedd cyfunrywiol ymysg oedolion sy'n cydsynio ac yn erbyn hyrwyddo cyfunrywioldeb.

## CERDYN RÔL 8 AMNEST RHYNGWLADOL

Rydych yn cynrychioli sefydliad hawliau dynol cenedlaethol. Mae Amnest yn dweud bod carcharu pobl ar sail eu hunaniaeth rywiol neu ryweddol yn mynd yn groes i hawliau dynol. Felly, rydych yn mynnu bod Adran 8 yn cael ei ddiddymu a bod cyfunrywioldeb yn cael ei ddad-droseddoli yn Boldofia. Dylid rhyddhau pawb sydd wedi'u carcharu oherwydd cysylltiadau cydsyniol gyda phartner o'r un rhyw yn syth.

# GWERS 7

# Gweithredu

**NOD** Ffilm fer ac astudiaeth achos i ysbrydoli myfyrwyr gyda syniadau ar gyfer ymgyrchu. Gellir defnyddio'r wers hon i gyflwyno prosiect traws-gwricwlaidd sy'n rhoi cyd-destun go iawn i fyfyrwyr er mwyn ennill y sgiliau ysgrifennu, cyfryngau, meddwl beirniadol a gwaith grŵp sy'n angenrheidiol ar gyfer ymgyrchu. Hefyd, gellir ei defnyddio fel sesiwn ychwanegol y tu hwnt i'r cwricwlwm er mwyn sefydlu neu ysbrydoli grŵp ieuenctid Amnest.

## BYDD ANGEN

- **PowerPoint** Gweithredu
- **Taflen Adnoddau 1** Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol fersiwn cryno
- **Nodiadau'r athro** Cefndir y Datganiad
- **Ffilm** *I Talk Out Loud* (vimeo.com/29140974, 9 munud)
- **Taflenni** o bapur A2 a phinnau lliwio

## DEILLIANNAU DYSGU

- Deall a chyflawni gweithred er mwyn hyrwyddo hawliau dynol
- Amlygu materion cyfoes lle mae hawliau dynol dan fygythiad
- Trefnu neu ymuno ag ymgyrchoedd ar gyfer pobl sy'n cael eu hamddifadu o ryddidau a hawliau

## DECHRAU 10 munud

Mae'r myfyrwyr yn ystyried p'un a all eu gweithredoedd wneud gwahaniaeth yn y byd.

- Gan ddefnyddio sleid 2 fel man cychwyn os hoffech chi, gofynnwch i'r myfyrwyr ddewis rhif o 1-10 gan ddibynnu ar faint maen nhw'n cytuno gyda'r datganiad 'Dw i ddim yn credu y bydd fy ngweithredoedd na fy marn yn gwneud gwahaniaeth i'r byd.' (1 yw anghytuno'n gryf a 10 yw cytuno'n gryf).
- Trafodwch farn y myfyrwyr fel dosbarth.
- Gofynnwch i'r myfyrwyr ddewis rhif ar gyfer ail ddatganiad, 'Pan fydda' i'n poeni am bwnc penodol, byddaf eisiau codi fy llais neu wneud rhywbeth er mwyn newid pethau.' Trafodwch eich barn.
- Esboniwch eich bod yn mynd i ystyried sut gall pobl ifanc fynegi eu barn a gweithredu dros hawliau dynol.

## PRIF WEITHGAREDD 1 25 munud

Mae'r myfyrwyr yn ystyried achos lle mae hawliau dynol dan fygythiad ac yn meddwl am eu syniadau eu hunain er mwyn ymgyrchu.

- Cyflwynwch achos Sakineh Mohameddi Ashtiani i'r myfyrwyr, gan ddefnyddio sleid 3.
- Dosbarthwch gopïau o Daflen Adnoddau 1 Fersiwn cryno o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a gofynnwch i'r myfyrwyr amlygu pa hawliau sy'n cael eu torri trwy labyddio rhywun i farwolaeth. Trafodwch. Cyfeiriwch at Nodiadau'r athro ar y Datganiad i roi mwy o wybodaeth i fyfyrwyr.
- Dangoswch y ffilm I Talk Out Loud i'r dosbarth sy'n sôn am grŵp o fyfyrwyr sy'n gweithredu dros Sakineh Mohameddi Ashtiani. Mae'r ffilm yn naw munud o hyd, felly efallai na fydd digon o amser i ddangos y fideo ar ei hyd.



Sakineh Mohameddi Ashtiani © Private







- Ar ôl y ffilm, gofynnwch i'r myfyrwyr drafod yr atebion i'r cwestiynau ar sleid 4 mewn grwpiau. Dylent adrodd eu syniadau yn ôl i'r dosbarth.
- Dangoswch sleid 5. Datgelwch y cafodd dedfryd Sakineh ei chyfnewid a chafodd ei rhyddhau yn 2014 ar ôl naw mlynedd ar res angau

## PRIF WEITHGAREDD 2 20 munud

- Mewn grwpiau bach, gofynnwch i'r myfyrwyr ddychmygu eu bod yn dîm o ymgyrchwyr. Rhowch bapur a phinnau ysgrifennu iddyn nhw. Gofynnwch iddyn nhw lunio rhestr o ddeg peth y gallan nhw ei wneud i arbed Sakineh rhag cael ei llabyddio. Anogwch nhw i feddwl mor eang â phosibl (awgrymiadau posibl: ysgrifennu llythyrau/deiseb/gwasanaeth ysgol/trefnu protest/perfformio drama/creu ffilm/sylw yn y wasg/cwrdd â'i AS/ymweld â llysgenhadaeth Iran).
- Yna, gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu'r sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer cyflawni pob syniad. Dylai'r myfyrwyr roi tic wrth y pethau fyddai'n hawdd iddyn nhw eu gwneud a rhoi cylch o amgylch y pethau mwy anodd.
- Gofynnwch i bob grŵp ddewis un peth y gallan nhw ei wneud yn hawdd ac un peth fyddai'n her fawr ac yn cymryd mwy o waith.
- Gofynnwch i bob grŵp gyflwyno eu syniadau i'r dosbarth.
- I weithio ar achos go iawn, gweler **amnesty.org.uk/jua**

## CRYNHOI 5 munud

- Gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl eto am y ddau ddatganiad a ystyriwyd ar ddechrau'r wers ('Dw i ddim yn credu y bydd fy ngweithredoedd na fy marn yn gwneud gwahaniaeth i'r byd' a 'Pan fydda' i'n poeni am bwnc penodol, byddaf eisiau codi fy llais neu wneud rhywbeth er mwyn newid pethau').
- A oes unrhyw fyfyrwyr wedi newid eu meddwl? Trafodwch pam.
- Esboniwch fod pobl sy'n gweithredu yn gallu gwneud gwahaniaeth. Mae rhagor o enghreifftiau o lwyddiannau ar **amnesty.org.uk/issues/good-news**
- Dysgwch sut i sefydlu grŵp ieuenctid yn eich ysgol ar **amnesty.org.uk/talkoutloud**

# GWERS 7: Taflen Adnoddau 1

## Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol

### fersiwn cryno

1. Ganwyd ni oll yn rhydd. Mae gennym ni oll ein meddyliau a'n syniadau ein hunain. Dylem oll dderbyn yr un fath o driniaeth.
2. Mae'r hawliau hyn yn eiddo i bawb, ni waeth beth yw ein gwahaniaethau.
3. Mae gennym oll yr hawl i fywyd ac i fyw mewn rhyddid a diogelwch.
4. Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n gwneud yn gaethweision. Ni allwn ni wneud caethwas o unrhyw un arall
5. Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n brifo na'n harteithio na'n trin yn greulon.
6. Mae gan bawb yr hawl i gael eu hamddiffyn gan y gyfraith.
7. Yr un yw'r gyfraith i bawb. Mae'n rhaid iddi ein trin i gyd yn deg.
8. Gall pawb ofyn i'r gyfraith ein cynorthwyo pan na fyddwn yn derbyn triniaeth deg.
9. Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n carcharu heb reswm digonol, i'n cadw yn y carchar nac i'n halltudio o'n gwlad.
10. Os cawn ein gosod ar brawf, rhaid i hynny fod yn gyhoeddus. Ni ddylai'r rhai sy'n ein barnu ganiatáu i unrhyw un arall ddweud wrthyn nhw yr hyn y dylen nhw ei wneud.
11. Ni ddylid beio unrhyw un am wneud rhywbeth hyd nes y ceir tystiolaeth ohono. Pan fydd pobl yn dweud ein bod wedi gwneud rhywbeth drwg, mae gennym yr hawl i brofi nad yw hynny'n wir.
12. Ni ddylai unrhyw un geisio difwyno ein henw da. Nid oes gan unrhyw un yr hawl i ddod i mewn i'n cartref, agor ein llythyron nac i'n haflonyddu ni na'n teuluoedd heb reswm da.
13. Mae gennym oll yr hawl i fynd ble y mynnom yn ein gwlad ein hunain ac i deithio dramor yn ôl ein dymuniad.
14. Pan fyddwn yn ofni camdriniaeth yn ein gwlad ein hunain mae gennym oll yr hawl i ffoi i wlad arall er mwyn bod yn ddiogel.
15. Mae gennym oll yr hawl i berthyn i wlad.
16. Mae gan bob oedolyn yr hawl i briodi a chael teulu pan fyddan nhw'n dymuno gwneud hynny. Mae gan ddynion a menywod yr un hawliau pan fyddan nhw'n briod a phan fyddan nhw wedi gwahanu.
17. Mae gan bawb yr hawl i berchen pethau neu i'w rhannu. Ni ddylai unrhyw un fynd â phethau oddi wrthym ni heb reswm digonol.
18. Mae gennym oll yr hawl i gredu'r hyn y dymunwn ei gredu, i berthyn i grefydd neu i'w newid pan ddymunwn wneud hynny.
19. Mae gennym oll yr hawl i wneud ein penderfyniadau ein hunain, i feddwl yr hyn a fynnwn, i ddweud yr hyn a fynnwn ac i rannu ein syniadau â phobl eraill.
20. Mae gennym oll yr hawl i gyfarfod â'n ffrindiau ac i gydweithio mewn heddwch i amddiffyn ein hawliau. Ni all unrhyw un ein gorfodi i ymuno â grŵp pan na fyddwn yn dymuno gwneud hynny.
21. Mae gennym oll yr hawl i gyfranogi yn llywodraeth ein gwlad. Dylid caniatáu i bob oedolyn bleidleisio i ddewis eu harweinwyr eu hunain.
22. Mae gennym oll yr hawl i gartref, i feddu ar ddigon o arian i fyw ac i gymorth meddygol pan fyddwn yn sâl. Dylem oll fod yn rhydd i fwynhau cerddoriaeth, celfyddyd, crefft a chwaraeon.
23. Mae gan bob oedolyn yr hawl i swydd, i gyflog teg am ei waith ac i ymuno ag undeb llafur.
24. Mae gennym oll yr hawl i orffwys o'n gwaith ac i ymlacio.
25. Mae gennym oll yr hawl i ddigon o fwyd, dillad, tai a gofal iechyd. Mae gan famau a phlant, pobl ddi-waith, hen bobl a phobl anabl yr hawl i gael gofal.
26. Mae gennym oll yr hawl i addysg ac i gwblhau addysg gynradd a ddylai fod am ddim. Dylem fod yn gallu dysgu ar gyfer gyrfa neu wneud defnydd llawn o'n holl sgiliau.
27. Mae gennym oll yr hawl i'n ffordd o fyw ein hunain, ac i fwynhau'r pethau da a ddaw yn sgil gwyddoniaeth a dysg.
28. Mae gennym hawl i drefn er mwyn i ni oll fwynhau hawliau a rhyddid yn ein gwlad ein hunain a thros y byd i gyd.
29. Mae gennym ddyletswydd tuag at bobl eraill, a dylem amddiffyn eu hawliau a'u rhyddid.
30. Ni all neb ddwyn yr hawliau a'r rhyddidau hyn oddi wrthym.

Mae'r fersiwn hon o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol wedi cael ei symleiddio gan Amnest Rhyngwladol UK ac mae'n arbennig o ddefnyddiol i bobl iau. I weld fersiwn lawn y Datganiad gweler **amnesty.org.uk/universal**

# GWERS 7: Nodiadau'r athro

## Cefndir y Datganiad

### BETH YW HAWLIAU DYNOL?

Yn eu hanfod, mae hawliau dynol yn golygu popeth sy'n angenrheidiol i bob person fyw bywyd iach a chyflawn a chymryd rhan yn y gymdeithas yn llawn. Maen nhw'n hawliau - mae gennych chi rai oherwydd eich bod chi'n berson dynol.

Mae hawliau dynol yn:

- gyffredinol – maen nhw'r un mor berthnasol i bawb
- diymwad – ni ellir eu tynnu oddi wrth pobl
- anwahanadwy – mae pob un yn gysylltiedig: gall peidio ag amddiffyn un hawl arwain at amharu ar hawliau eraill, yn yr un modd ag y gall gweithredu i gyflawni un hawl arwain at gyflawni hawliau eraill.

Caiff hawliau dynol eu hategu gan set o werthoedd cyffredin sydd wedi bod yn rhan annatod o gymdeithasau, gwareiddiadau a chrefyddau trwy gydol hanes, fel tegwch, parch, cydraddoldeb, urddas a hunanreolaeth.

### BETH YW'R DATGANIAD CYFFREDINOL O HAWLIAU DYNOL?

Arweiniodd yr erchyllterau a gyflawnwyd gan wladwriaethau yn ystod yr Ail Ryfel Byd, yn enwedig camdriniaethau erchyll yr Holocost, at sefydlu Comisiwn Hawliau Dynol ym 1947 gan y Cenhedloedd Unedig, oedd newydd gael eu ffurfio. Daeth grŵp o arweinwyr llywodraethau ynghyd, gydag Eleanor Roosevelt fel cadeirydd, i ddrafftio dogfen newydd er mwyn ceisio atal y fath gamdriniaethau hawliau dynol rhag digwydd eto. Nid y digwyddiadau yn Ewrop yn unig gafodd ddylanwad ar weledigaeth yr arweinwyr hyn; roedd digwyddiadau eraill ledled y byd, fel Gandhi'n cael ei lofruddio yn India a dechrau'r apartheid yn Ne Affrica, ar flaen eu meddwl hefyd.

Cafodd y ddogfen a grëwyd, sef y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol, ei mabwysiadu gan wledydd y Cenhedloedd Unedig ym 1948 a dyma yw'r fframwaith hawliau dynol enwocaf a phwysicaf yn y byd hyd heddiw. Mae'r rhagymadrodd yn cydnabod hawliad cyffredinol i bob person, ac mae'n gosod y nod o gyfrannu at ryddid, cyfiawnder a heddwch yn y byd. Mae hawliau dynol yn cael eu diffinio yn y 30 erthygl ddilynol.

Nid yw'r Datganiad yn rhwymol gyfreithiol ar gyfer y gwledydd, ond mae wedi ffurfio sail i sawl cytundeb sy'n rhwymol gyfreithiol, fel y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn, a'r Confensiwn yn erbyn Arteithio a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Eraill. Mae grwpiau rhanbarthol o wledydd a gwladwriaethau unigol wedi ymgorffori'r hawliau dynol hyn yn eu cytundebau eu hunain, fel y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol y DU.